# AMODAU SAFONOL LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER CYFLENWI NWYDDAU

## TABL CYNNWYS


| Amod | |
|---|---|
| 1. | Diffiniadau a Dehongliad |
| 2. | Materion Rhagarweiniol |
| 3. | Cychwyn a Hyd |
| 4. | Cwmpas |
| 5. | Cyflenwi a Dosbarthu |
| 6. | Y Nwyddau |
| 7. | Derbyn a Nwyddau Diffygiol |
| 8. | Disodli ac Atgyweirio |
| 9. | Dangosyddion Perfformiad Allweddol |
| 10. | Diffyg |
| 11. | Teitl a Risg |
| 12. | Pris a Thaliad |
| 13. | Gwarantiadau ac Ymhoniadau |
| 14. | Newid y Man Gwneuthuro |
| 15. | Gwrthgyfrif |
| 16. | Polisïau |
| 17. | Eiddo Deallusol |
| 18. | Personél y Cyflenwr |
| 19. | Gofynion Amgylcheddol |
| 20. | Gwahaniaethu a Chydraddoldeb |
| 21. | Cyfrinachedd |
| 22. | Diogelwch Gwybodaeth Gyfrinachol |
| 23. | Rhyddid Gwybodaeth |
| 24. | Cyhoeddusrwydd |
| 25. | Newid Deddfwriaethol |
| 26. | Gwrthdaro Buddiannau |
| 27. | Rhoddion Llygredig, Talu Comisiwn ac Atal Llwgrwobrwyo |
| 28. | Twyll |
| 29. | Indemniad |
| 30. | Cyfyngu Atebolrwydd |
| 31. | Yswiriant |
| 32. | Force Majeure |
| 33. | Gweithredu Diwydiannol |
| 34. | Terfynu |
| 35. | Canlyniadau Terfynu a Dod i Ben |

| | |
|---|---|
| 36. | Toriad |
| 37. | Y Broses Datrys Anghydfod |
| 38. | Is-gontractio ac Aseinio |
| 39. | Swyddogaethau Gweinidogion Cymru |
| 40. | Hysbysiadau |
| 41. | Atebolrwydd Cyd ac Unigol |
| 42. | Toradwyedd |
| 43. | Hawlildiad |
| 44. | Rhwymedïau Cronnol |
| 45. | Diwygiadau i'r Contract hwn |
| 46. | Hawliau Trydydd Parti |
| 47. | Dim Asiantaeth na Phartneriaeth |
| 48. | Cytundeb Cyfan |
| 49. | Costau |
| 50. | Y Gyfraith ac Awdurdodaeth |

## 1. DIFFINIADAU A DEHONGLIAD

1.1. At ddibenion yr Amodau hyn, oni nodir yn wahanol, bydd gan y geiriau canlynol yr ystyr ganlynol:

| | |
|---|---|
| Meini Prawf Derbyn | Y cyfryw feini prawf y mae'r Cwsmer wedi nodi bod yn rhaid i'r Nwyddau eu bodloni cyn i'r Cwsmer gael y Nwyddau; |
| Rheoliadau 2004 | Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004; |
| Amodau | Yr amodau safonol hyn i gyflenwi nwyddau; |
| Archeb | Archeb ar gyfer y Nwyddau a osodir gan y Cwsmer yn unol ag Amod 5; |
| Arferion Da'r Diwydiant | Dangos y lefel o fedr, diwydrwydd, darbodusrwydd, effeithlonrwydd, rhagolwg ac amseroldeb a ddisgwylid gan brif ddarparwr o fewn diwydiant neu sector busnes perthnasol gwasanaethau sy'n debyg i'r Gwasanaethau i'w darparu o dan y Contract hwn; |
| Awdurdod Contractio | Yn golygu unrhyw awdurdod contractio fel y'i diffinnir yn Adran 2(1) o PA 2023; |
| Cais am Wybodaeth | Yr ystyr a roddir yn adran 8 o Ddeddf 2000 a/neu Reoliad 5 o Reoliadau 2004, gan gynnwys unrhyw gais tybiedig am y cyfryw Wybodaeth; |
| Colled wedi'i Hindemnio | Pob atebolrwydd, dirwy, cosb, iawndal, archeb, achos, hawliad, cost a thraul, ni waeth beth sy'n codi na sut mae'n codi, yr eir iddo neu iddi, gan gynnwys, heb gyfyngiad, bob traul gyfreithiol (ar sail indemniad) a ffioedd proffesiynol eraill (ynghyd ag unrhyw TAW); |
| Contract | Y contract sy'n cynnwys y dogfennau y cyfeirir atynt yn Amod 4; |
| Cwsmer | Gweinidogion Cymru y mae eu prif swyddfa yn Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ oni nodir fel arall yn y Llythyr Dyfarnu; |
| Cyflenwr | Yr unigolyn neu unigolion, y sefydliad neu sefydliadau, neu'r busnes neu fusnesau yr anfonir y Llythyr Dyfarnu ato/atynt neu iddo/iddynt, ac unrhyw unigolyn neu unigolion, sefydliad neu sefydliadau, neu fusnes neu fusnesau sydd wedi cyflawni'r Llythyr Dyfarnu; |
| Cyfnod y Contract | Y cyfnod sy'n dechrau ar y Dyddiad Cychwyn ac sy'n gorffen ar y dyddiad y daw'r Contract hwn i ben neu y caiff ei derfynu (p'un bynnag sy'n gymwys); |

| | |
|---|---|
| Dangosyddion Perfformiad Allweddol | y dangosyddion perfformiad allweddol cymwys y cyfeirir atynt yn Amod 9 |
| Adroddiad DPA | yr ystyr a roddwyd yn Amod 9; |
| Cyfnod Adrodd DPA | yr ystyr a roddwyd yn Amod 9; |
| Data Personol | Yr ystyr a roddir yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data;' |
| Deddf 2000 | Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir oddi tani o bryd i'w gilydd, gan gynnwys, lle y bo'n gymwys, unrhyw ganllawiau a/neu godau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu adran berthnasol o'r llywodraeth mewn perthynas â hi; |
| Deddfwriaeth | (a) Unrhyw statud neu broclamasiwn neu unrhyw ddeddfwriaeth ddirprwyedig neu is-ddeddfwriaeth;<br><br>(b) unrhyw ganllaw, cod ymarfer, cyfarwyddyd neu benderfyniad cymwys y mae'n rhaid i'r Cwsmer a/neu'r Cyflenwr gydymffurfio ag ef i'r graddau y mae'r un peth wedi'i gyhoeddi ac ar gael yn gyhoeddus, neu mae'r Cwsmer wedi hysbysu'r Cyflenwr am ei fodolaeth neu ei gynnwys;<br><br>(c) unrhyw ddyfarniad neu orchymyn cymwys gan lys cyfreithiol perthnasol sy'n gynsail rhwymol yng Nghymru a Lloegr,<br><br>ym mhob achos mewn grym neu'n gymwys yng Nghymru a Lloegr, neu yng Nghymru yn unig; |
| Diffyg | (i) Unrhyw achos o dorri rhwymedigaethau'r naill barti neu'r llall o dan y Contract hwn; neu<br>(ii) unrhyw ddiffyg, gweithred, anweithred, esgeuluster neu ddatganiad gan y naill barti neu'r llall, neu ei Bersonél, mewn cysylltiad neu mewn perthynas â phwnc testun y Contract hwn y mae'r cyfryw Barti yn atebol i'r llall amdano; |
| Digwyddiad Force Majeure | Achos o ryfel, gwrthdaro arfog, terfysgaeth, terfysgoedd, tân, llifogydd, storm, daeargryn, trychineb neu'r cyfryw ddigwyddiad tebyg arall, a hynny yn dilyn dyddiad y Contract hwn, sy'n cael effaith uniongyrchol ar y Sawl yr Effeithir Arno lle na all gyflawni ei holl rwymedigaethau, neu rai ohonynt, o dan y Contract hwn ond heb gynnwys unrhyw anghydfod diwydiannol yn ymwneud â'r Cyflenwr, Personél y Cyflenwr neu unrhyw fethiant arall yng nghadwyn gyflenwi'r Cyflenwr neu gadwyn gyflenwi unrhyw Is-Gontractiwr; |

| | |
|---|---|
| Diwrnod Gwaith | Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 4.30pm, heb gynnwys unrhyw wyliau cyhoeddus statudol yng Nghymru. |
| Dogfennau Tendr | Y Fanyleb, y Tendr, y Gwahoddiad i Dendro a'r Llythyr Dyfarnu; |
| Dyddiad Cychwyn | Yr ystyr a roddir yn Amod 3.1; |
| Dyddiad Dosbarthu | Yr ystyr a roddir yn Amod 5.2(c); |
| Dyddiad Terfynu | Y dyddiad y daw'r Contract hwn i ben neu y caiff ei derfynu, a bydd unrhyw gyfeiriadau at y Dyddiad Terfynu yn cynnwys unrhyw achos lle y bydd y Contract hwn yn cael ei derfynu neu'n dod i ben yn rhannol; |
| Llythyr Bwriad i Ddyfarnu | y llythyr sy'n nodi bwriad y Cwsmer i ddyfarnu contract cyhoeddus i'r tendr mwyaf manteisiol (MAT). Gall y Llythyr Bwriad i Dyfarnu hefyd fod ar ffurf crynodeb asesu (fel y'i diffinnir yn Adran 50 o PA 2023) i'r MAT; |
| Gwarant | Gwarant a roddir yn unol ag Amod 2; |
| Gwarantwr | Unrhyw berson sydd wedi rhoi Gwarant yn unol ag Amod 2; |
| Gwasanaethau | unrhyw un o'r gwasanaethau (neu ran ohonynt) a ddarperir gyda'r Nwyddau neu sydd i'w darparu gan y Cyflenwr fel y nodir yn y Contract hwn; |
| Gweithred Waharddedig | nodir yr hyn sy'n gyfystyr â Gweithredoedd Gwaharddedig isod:<br><br>(a) yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol cynnig, addo neu roi mantais ariannol neu fantais arall i unrhyw un sy'n gweithio i'r Cwsmer, neu a ddefnyddir ganddo, er mwyn:<br><br>(i) cymell y person hwnnw i gyflawni swyddogaeth neu weithgaredd perthnasol mewn ffordd amhriodol; neu<br>(ii) wobrwyo'r person hwnnw am gyflawni swyddogaeth neu weithgaredd perthnasol mewn ffordd amhriodol;<br><br>(b) yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gofyn am, cytuno i dderbyn neu dderbyn unrhyw fantais ariannol neu fantais arall fel cymhelliant neu wobr am gyflawni swyddogaeth neu weithgaredd perthnasol mewn ffordd amhriodol mewn cysylltiad â'r Contract hwn;<br><br>(c) cyflawni unrhyw drosedd;<br><br>(i) o dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010;<br>(ii) o dan ddeddfwriaeth sy'n creu troseddau sy'n ymwneud â gweithredoedd twyllodrus;<br>(iii) o dan gyfraith gyffredin sy'n ymwneud â gweithredoedd twyllodrus mewn perthynas â'r |

| | |
|---|---|
| | Contract hwn neu unrhyw gontract arall â'r Cwsmer; neu<br>(iv) dwyllo, ceisio twyllo neu gynllwynio i dwyllo'r Cwsmer; |
| Gwybodaeth | Yr ystyr a roddir o dan adran 84 o Ddeddf 2000 a/neu Reoliad 2 o Reoliadau 2004; |
| Gwybodaeth Gyfrinachol | Gwybodaeth (ni waeth sut mae'n cael ei chyflwyno nac ym mha gyfrwng mae'n cael ei storio) y byddai ei datgelu yn gyfystyr â thorri cyfrinachedd cyfreithadwy ac sydd naill ai wedi'i dynodi'n gyfrinachol gan y naill Barti'n ysgrifenedig neu y dylid ei hystyried yn destun dyletswydd cyfrinachedd ac sy'n cynnwys ond nad yw'n gyfyngedig i Ddata Personol ac unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â busnes, materion, eiddo, asedau, arferion masnachu, datblygiadau, cyfrinachau masnach, Hawliau Eiddo Deallusol, gwybodaeth ymarferol arbennig, personél, cwsmeriaid a chyflenwyr y naill Barti neu'r llall; |
| Hawliau Eiddo Deallusol | Hawlfraint, hawliau sy'n gysylltiedig â diogeliad yn debyg i hawlfraint neu sy'n rhoi hynny; hawliau o ran cronfeydd data; patentau a hawliau o ran dyfeisiadau; hawliau topograffeg lled-ddargludo; hawliau dylunio; masnachfreintiau, nodau gwasanaeth; hawliau o ran enwau parthau rhyngrwyd a chyfeiriadau gwefannau; enwau masnach, enwau busnesau, enwau brandiau; hawliau o ran diwyg; ewyllys da; gwybodaeth ymarferol arbennig, cyfrinachau masnach a hawliau o ran gwybodaeth gyfrinachol a phob hawl eiddo deallusol arall, ym mhob achos p'un ai'n gofrestredig neu'n anghofrestredig ac yn cynnwys pob cais a hawl i wneud cais am a chael, adnewyddu neu estyn, a hawliau i hawlio blaenoriaeth o ran, y cyfryw hawliau a phob hawl debyg neu gyfatebol neu fathau o ddiogeliad sy'n bodoli neu a wnaiff fodoli nawr neu yn y dyfodol mewn unrhyw ran o'r byd; |
| Is-Gontractiwr | Unrhyw drydydd parti y mae'r Cyflenwr yn ymrwymo i is-gontract neu gytundeb consortiwm ag ef, a/neu gyflogeion neu asiantau'r Is-Gontractwr ac unrhyw drydydd parti y mae'r trydydd parti hwnnw yn llunio is-gontract ag ef a/neu ei gyflogeion neu asiantau am gyflawni unrhyw ran o rwymedigaethau'r Cyflenwr o dan y Contract hwn; |
| Gwahoddiad i Dendr | yw'r gwahoddiad i dendr a gyhoeddir gan y Cwsmer ar gyfer darparu'r Nwyddau; |
| Lleoliad Dosbarthu | Yr ystyr a roddir yn Amod 5.2(c); |
| Llythyr Dyfarnu | Y llythyr y mae'r Cwsmer yn ei anfon at y Cyflenwr i'w hysbysu bod ei dendr wedi bod yn llwyddiannus a bod y Cyflenwr wedi ennill y Contract hwn i gyflenwi'r Nwyddau; |

| | |
|---|---|
| Manyleb | Y fanyleb sydd ynghlwm wrth y Gwahoddiad i Dendro, gan gynnwys unrhyw holiadur cymhwyso neu gyn cymhwyso ac unrhyw eglurhad ohono; |
| Nwyddau | Pob ac unrhyw Nwydd a gyflenwir gan y Cyflenwr yn unol â'r Contract hwn. |
| PA 2023 | Deddf Gaffael 2023 |
| Partïon | Y Cwsmer a'r Cyflenwr a bydd **"Parti"** yn golygu'r naill neu'r llall; |
| Personél | Swyddogion, partneriaid, cyflogeion, gweithwyr, asiantau, ymgynghorwyr ac isgontractwyr Parti, beth bynnag fo'u natur; |
| Pris | Yr ystyr a roddir yn Amod 12.1; |
| Rheolwr Contract Cwsmeriaid | Person a benodir gan y Cwsmer i weithredu ar ei ran at ddibenion y Contract hwn; |
| Rheolwr Contract y Cyflenwr | Person a benodir gan y Cwsmer i weithredu ar ei ran at ddibenion y Contract hwn yn unol ag Amod 40.4; |
| Rhiant Gwmni | Yr un ystyr ag a roddir i "riant ymgymeriad" ("parent undertaking") yn adran 1162 ac Atodlen 7 i Ddeddf Cwmnïau 2006; |
| Rhif Archeb | Y rhif swyddogol y mae'r Cwsmer yn ei roi i Archeb; |
| Safle | adeiladau a thir; |
| Safle'r Cwsmer | Unrhyw Safle y mae'r Cwsmer yn berchen arno, yn ei reoli, neu'n ddeiliad mewn perthynas ag ef. |
| Samplau | Unrhyw samplau a roddir i'r Cwsmer fel rhan o'r broses gaffael sy'n arwain at ddyfarnu'r Contract hwn; |
| Sawl yr Effeithir Arno | Y Sawl sy'n ceisio hawlio rhyddhad o ran Digwyddiad Force Majeure; |
| Staff | Pob ac unrhyw unigolyn a gyflogir neu a ddefnyddir gan y Cyflenwr neu unrhyw Is-Gontractiwr sydd, ar unrhyw adeg, yn ymwneud â chyflenwi'r holl Nwyddau neu unrhyw rai o'r Nwyddau, neu unrhyw ran ohonynt; |
| TAW | Treth ar werth a godir o dan Ddeddf Treth ar Werth 1994; |
| Tendr | Yr holl ddogfennaeth a gyflwynir gan y Cyflenwr mewn ymateb i'r Gwahoddiad i Dendro (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ymateb y Cyflenwr i unrhyw holiadur cyn |

| | |
|---|---|
| | cymhwyso neu gymhwyso, neu unrhyw eglurhad gan y Cyflenwr); |
| Ymgymeriad Cyfrinachedd | Ymgymeriad i beidio â defnyddio na datgelu unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol sy'n dod i law, oni fydd hynny'n gwbl ofynnol er mwyn cyflawni dibenion y Contract hwn (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ei aildendro); |

1.2. Yn y Contract hwn mae'r gwrywaidd yn cynnwys y benywaidd a'r diryw ac mae'r unigol yn cynnwys y lluosog a vice versa.

1.3. Bydd cyfeiriad at unrhyw statud, offeryn statudol, deddfiad, gorchymyn, rheoliad neu offeryn tebyg arall yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y statud, offeryn statudol, deddfiad, gorchymyn, rheoliad neu offeryn fel y'i diwygiwyd, eu disodli neu eu hailddeddfu wedyn ac fel y'u grymwyd ar yr adeg berthnasol. Bydd unrhyw gyfeiriad at ddarpariaeth statudol yn cynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o bryd i'w gilydd o dan y ddarpariaeth honno.

1.4. Bydd cyfeiriad at Barti yn cynnwys cynrychiolwyr personol ac aseineion a ganiateir gan y Parti hwnnw.

1.5. Mae person yn cynnwys person naturiol, corff corfforedig neu anghorfforedig (p'un a oes ganddo bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân ai peidio).

1.6. Bydd cyfeiriad at gwmni yn cynnwys unrhyw gwmni, corfforaeth neu gorff corfforedig arall ble bynnag a sut bynnag y'i corfforwyd neu y'i sefydlwyd.

1.7. Tybir bod cyfeiriad at unrhyw ddogfen yn gyfeiriad at y ddogfen ar ddyddiad y Llythyr Dyfarnu.

1.8. Dim ond er hwylustod y caiff penawdau eu cynnwys yn y Contract hwn ac ni fyddant yn effeithio ar y dehongliad o'r Contract hwn na'r ffordd y mae wedi'i lunio.

1.9. Mae'r atodlenni a'r atodiadau, os oes rhai, yn rhan o'r Contract hwn a byddant yn cael effaith fel petaent wedi'u cyflwyno'n llawn yng nghorff y Contract hwn a bydd unrhyw gyfeiriad at y Contract hwn yn cynnwys yr atodlenni a'r atodiadau.

## 2. MATERION RHAGARWEINIOL

2.1. Bydd telerau'r Contract hwn yn gymwys i bob Archeb a wneir gan y Cwsmer.

2.2 Bydd y Cyflenwr, ar gais y Cwsmer, yn ymrwymo i fath o gytundeb atodol a bennir gan y Cwsmer er mwyn adlewyrchu gofynion perthnasol unrhyw Wahoddiad i Dendro ac (fel sy'n briodol) y cynigion a amlinellir mewn unrhyw Dendr a gyflwynir mewn ymateb iddo gan gynnwys, heb gyfyngiad, gytundeb consortiwm.

2.3 Ar gais y Cwsmer, bydd y Cyflenwr yn rhoi enwau a chyfeiriadau dau fechnïwr sylweddol sy'n foddhaol i'r Cwsmer ac sy'n barod i warantu y cyflawnir y Contract hwn yn briodol. Rhaid i'r Cwsmer fod yn fodlon ar delerau unrhyw warant o'r fath.

2.4 Pan fydd y Cyflenwr yn rhan o gonsortiwm, bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod pob aelod o'r consortiwm yn barod i warantu y cyflawnir y contract hwn yn briodol os gofynnir iddo wneud hynny gan y Cwsmer.

**3. CYCHWYN A HYD**

3.1. Daw'r Contract hwn i rym ar y dyddiad cychwyn a nodir yn y Llythyr Dyfarnu (y **"Dyddiad Cychwyn"**) a daw i ben ar:

(a) y dyddiad dod i ben a nodir yn y Fanyleb; neu

(b) lle na nodir unrhyw ddyddiad, pan gwblheir darparu'r Nwyddau;

oni chaiff y Contract hwn ei derfynu yn unol â'r Amodau hyn neu y'i hymestynnir yn unol ag Amod 3.2.

3.2 Os bydd wedi'i nodi yn y Fanyleb, caiff y Cwsmer ymestyn Cyfnod y Contract am y cyfryw gyfnod pellach ag a nodir yn y Fanyleb. Caiff Cyfnod y Contract ei ymestyn naill ai drwy i'r Cwsmer hysbysu'r Cyflenwr o leiaf 28 diwrnod cyn diwedd Cyfnod y Contract neu â chytundeb ysgrifenedig y ddau Barti.

**4. CWMPAS**

4.1 Bydd y Contract hwn yn cynnwys y canlynol:

(a) y Llythyr Dyfarnu;

(b) yr Amodau hyn;

(c) y cytundeb atodol a wnaed yn unol ag Amod 2.2, os o gwbl;

(d) y Fanyleb;

(e) yr Atodlenni (os o gwbl);

(f) y Gwahoddiad i Dendro a'r Tendr;

(g) yr Archeb;

(h) unrhyw ddogfen arall y ceir cytundeb ysgrifenedig gan y Partïon i'w chynnwys fel rhan o'r Cytundeb hwn.

4.2. Caiff y dogfennau a restrir yn Amod 4.1 eu darllen gyda'i gilydd a'u dehongli fel eu bod yn gyson â'i gilydd i'r graddau y mae hynny'n bosibl. Os bydd unrhyw anghysondeb neu wrthdaro na ellir ei osgoi rhwng unrhyw rai o'r dogfennau amrywiol sy'n rhan o'r Contract hwn, fe'u rhoddir yn y drefn ganlynol o ran blaenoriaeth;

(a) yr Amodau Arbennig, a/neu gytundeb atodol yn unol ag Amod 2.2;

(b) yr Amodau hyn;

(c) y Fanyleb;

(d) yr Atodlenni (os o gwbl);

(e) y Gwahoddiad i Dendro;

(f) yr Archeb;

(g) y Tendr, oni bai bod unrhyw ran o'r Tendr yn cynnig gwell sefyllfa fasnachol i'r Cwsmer (fel y penderfynwyd gan y Cwsmer, yn ei ddisgresiwn llwyr), ac yn yr achos hwnnw bydd y rhan honno o'r Tendr yn cael blaenoriaeth dros y dogfennau uchod; ac

(h) unrhyw ddogfen arall y ceir cytundeb ysgrifenedig gan y Partïon i'w chynnwys fel rhan o'r Contract hwn (nad yw, er mwyn osgoi amheuaeth, yn cynnwys unrhyw delerau ac amodau a roddwyd gan y Cyflenwr).

4.3. Os bydd gwrthdaro rhwng darpariaethau'r Contract hwn (gan gynnwys unrhyw un o'r dogfennau a restrir yn Amod 4.1) ac unrhyw delerau ac amodau a gyhoeddir gan y Cyflenwr, yna'r telerau ac amodau a geir yn y Contract hwn fydd drechaf ac mae'r Cyflenwr, drwy gyflawni'r Contract hwn, yn cadarnhau ei fod yn derbyn yr Amod 4.3 hwn.

## 5. CYFLENWI A DOSBARTHU

5.1. Caiff y Cwsmer ar unrhyw adeg yn ystod Cyfnod y Contract archebu Nwyddau oddi wrth y Cyflenwr drwy roi Archeb iddo a bydd y Cyflenwr yn cyflenwi'r cyfryw Nwyddau yn unol ag Archeb y Cwsmer.

5.2. Bydd pob Archeb fel a ganlyn:

(a) caiff ei roi'n ysgrifenedig neu, os y'i rhoddir ar lafar, caiff ei gadarnhau'n ysgrifenedig o fewn dau ddiwrnod gwaith;

(b) bydd yn nodi'r math o Nwyddau a archebir a'r swm dan sylw;

(c) bydd yn nodi'r dyddiad y caiff yr Archeb ei dosbarthu (y **"Dyddiad Dosbarthu"**) ac i ble (y **"Lleoliad Dosbarthu"**).

5.3. Bydd y Cwsmer yn rhoi Rhif Archeb i bob Archeb ac yn rhoi gwybod i'r Cyflenwr beth yw'r cyfryw rifau. Bydd pob Parti yn defnyddio'r Rhif Archeb berthnasol mewn unrhyw ohebiaeth ddilynol sy'n ymwneud â'r Archeb.

5.4. Bydd y Cyflenwr, ar ei draul a'i fenter ei hun, yn cyflenwi ac yn dosbarthu pob Archeb i'r Lleoliad Dosbarthu ar y Dyddiad Dosbarthu, yn unol â darpariaethau'r Contract hwn a'r Archeb berthnasol.

5.5. Cwblheir y gwaith o ddosbarthu'r Archeb pan gwblheir ei dosbarthu i'r Lleoliad Dosbarthu a nodir yn yr Archeb. Os bydd y Cwsmer wedi dewis casglu'r Nwyddau, bydd yr Archeb wedi'i chwblhau pan gaiff y Nwyddau eu rhoi yng ngherbyd y Cwsmer.

5.6 Oni nodir fel arall yn yr Archeb, bydd y broses ddosbarthu yn cynnwys dadlwytho, stacio neu osod y Nwyddau gan y Cyflenwr neu staff yn y cyfryw le ag y nodir yn rhesymol gan y Cwsmer neu berson arall a awdurdodir yn briodol.

5.7 Bydd pob Archeb yn cynnwys nodyn neu nodiadau dosbarthu sy'n rhoi'r holl fanylion, gan gynnwys y Rhif Archeb, dyddiad yr Archeb a'r math o Nwyddau a geir yn yr Archeb a'u swm. Lle y cyflenwir y Nwyddau yn ôl pwysau ac na chânt eu pwyso yn y man dosbarthu, bydd y Cyflenwr yn rhoi tocyn pwysau i'r Cwsmer adeg dosbarthu'r Nwyddau.

5.8 Lle y caiff y Nwyddau eu gwerthu yn ôl pwysau, didynnir pwysau'r holl ddeunyddiau pacio o bwysau gros y Nwyddau a dim ond talu am eu pwysau net a wnaiff y Cwsmer, ac ni fydd yn atebol am ddychwelyd unrhyw ddeunyddiau pacio.

5.9 Ar unrhyw adeg cyn anfon y Nwyddau, caiff y Cwsmer ganslo Archeb neu ddiwygio unrhyw ofynion a nodir mewn Archeb gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, unrhyw rai o'r canlynol:

(a) swm y Nwyddau sydd eu hangen;

(b) y Dyddiad Dosbarthu; a/neu

(c) y Lleoliad Dosbarthu;

5.10 Os bydd y Cwsmer yn diwygio neu'n canslo Archeb yn unol ag Amod 5.9, bydd ei atebolrwydd i'r Cyflenwr yn gyfyngedig i dalu i'r Cyflenwr yr holl gostau uniongyrchol yr aeth iddynt yn rhesymol wrth gyflawni'r Archeb hyd at y dyddiad y cafodd wybod am ddiwygio neu ganslo'r Archeb, oni fydd yr achos o ddiwygio neu ganslo yn deillio o fethiant y Cyflenwr i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn, ac ni fydd y Cwsmer yn atebol i'r Cyflenwr o gwbl mewn perthynas ag ef.

5.11 Os daw Cyfnod y Contract i ben cyn cyflenwi neu ddosbarthu unrhyw Nwyddau a geir mewn Archeb, bydd y Cyflenwr yn parhau'n atebol am gwblhau'r Archeb. Bydd telerau ac amodau'r Contract hwn yn parhau yn eu cyflawn rym a'u nerth mewn perthynas â chwblhau'r cyfryw Archeb.

**6. Y NWYDDAU**

6.1 Bydd y Cyflenwr, ar ei draul ei hun, yn sicrhau bod yr holl Nwyddau a gyflenwir i'r Cwsmer yn unol â'r Contract hwn fel a ganlyn:

(a) yn cydymffurfio â'r Fanyleb;

(b) yn bodloni unrhyw ofyniad deddfwriaethol (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, (i) bod o ansawdd boddhaol o fewn ystyr Deddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau 1982 a (ii) bodloni'r holl ofynion statudol a rheoliadol cymwys);

(c) yn cydymffurfio ag unrhyw Safon Brydeinig, manyleb neu god ymarfer perthnasol, neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny o fewn yr Undeb Ewropeaidd;

(d) yn cydymffurfio ag unrhyw bolisïau, rheolau, codau ymarfer, gweithdrefnau a safonau y mae'n ofynnol i'r Cyflenwr gydymffurfio â nhw;

(e) cydymffurfio ag unrhyw Feini Prawf Derbyn a nodir gan y Cwsmer;

(f) bod yn rhydd o ddiffygion o ran dyluniad, deunydd a saernïaeth a pharhau felly am 12 mis ar ôl dosbarthu'r Nwyddau;

(g) bod o ansawdd boddhaol ac yn addas at unrhyw ddiben y defnyddir y cyfryw Nwyddau ar ei gyfer neu yr hysbysir y Cyflenwr ohono yn ysgrifenedig gan y Cwsmer;

(h) cyfateb i unrhyw Samplau ym mhob ffordd;

(i) cael eu darparu yn unol â'r telerau a nodir yn y Contract hwn.

6.2 Yn ogystal â'r rhwymedigaethau sydd ar y Cyflenwr yn unol ag Amod 6.1, bydd y Cyflenwr hefyd yn gwneud y canlynol:

(a) sicrhau bod y Nwyddau wedi'u pecynnu a'u diogelu'n briodol mewn ffordd sy'n eu galluogi i gyrraedd eu cyrchfan mewn cyflwr da;

(b) cael a chynnal drwy gydol Cyfnod y Contract yr holl drwyddedau, caniatadau a chydsyniadau sydd eu hangen i gyflenwi'r Nwyddau yn unol â thelerau'r Contract hwn;

(c) cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, deddfiadau, gorchmynion, rheoliadau ac offerynnau eraill sy'n gymwys o ran pacio, pecynnu, marcio, storio, trin a thrafod, a dosbarthu'r Nwyddau.

6.3 Bydd Safle'r Cyflenwr ar gael ar bob adeg resymol i'w archwilio gan un o gynrychiolwyr y Cwsmer, gan wneud neu heb wneud apwyntiad ymlaen llaw, ac yn ystod y cyfryw archwiliadau bydd y Cyflenwr yn caniatáu i gynrychiolydd y Cwsmer weld unrhyw Nwyddau a gyflenwir o dan ddarpariaethau'r Contract hwn neu gymryd samplau o'r holl Nwyddau, neu unrhyw rai ohonynt, at ddiben profion neu waith dadansoddi er mwyn penderfynu a gydymffurfir â'r Fanyleb.

6.4 Os bydd y Cwsmer, yn dilyn archwiliad yn unol ag Amod 6.3, yn ystyried yn rhesymol nad yw'r Nwyddau yn cydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau Amod 6.1, neu nad ydynt yn debygol o wneud hynny, heb leihau effaith unrhyw hawl neu rwymedi sydd ar gael iddo, bydd y Cwsmer yn hysbysu'r Cyflenwr a bydd y Cyflenwr yn cymryd y camau sydd eu hangen ar unwaith er mwyn sicrhau bod y Nwyddau yn unol ag Amod 6.1.

**7. DERBYN A NWYDDAU DIFFYGIOL**

7.1. Ni thybir bod y Cwsmer wedi derbyn unrhyw Nwyddau nes iddo gael pum diwrnod gwaith i'w harchwilio ar ôl iddynt gael eu dosbarthu neu, os bydd diffyg cudd o ran y Nwyddau, nes amser rhesymol ar ôl i'r diffyg cudd ddod i'r amlwg.

7.2. Lle y nodir unrhyw Feini Prawf Derbyn o dan delerau'r Contract hwn, ni fydd yn ofynnol i'r Cwsmer dderbyn y Nwyddau oni fydd y Cyflenwr wedi dangos, a nes i'r Cyflenwr ddangos bod yr holl Feini Prawf Derbyn wedi'u bodloni a bod y Cwsmer wedi cyflwyno tystysgrif derbyn.

7.3. Ni fydd yn ofynnol i'r Cwsmer dderbyn na thalu am unrhyw Nwyddau a gyflenwir sydd uwchlaw'r hyn a archebwyd. Os bydd y Cwsmer yn dewis peidio â derbyn y cyfryw Nwyddau, bydd yn hysbysu'r Cyflenwr yn ysgrifenedig fod angen iddo eu casglu o fewn pum diwrnod gwaith i'w dosbarthu ac ad-dalu'r Cwsmer am unrhyw dreuliau yr aed iddynt yn sgil dosbarthu mwy o Nwyddau na'r gofyn (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gostau symud a storio'r Nwyddau), ac os metho hyn caiff y Cwsmer waredu'r cyfryw Nwyddau a chodi tâl ar y Cyflenwr am gostau gwneud hynny. Bydd y risg o ran unrhyw Nwyddau sydd uwchlaw'r hyn a archebwyd yn parhau gyda'r Cyflenwr oni fydd y Cwsmer yn eu derbyn yn ffurfiol yn ysgrifenedig.

7.4. Ni fydd yn ofynnol i'r Cwsmer dderbyn na thalu am unrhyw Nwyddau a gyflenwir yn gynharach na'r dyddiad dosbarthu a nodir yn yr Archeb.

7.5. Ni fydd yn ofynnol i'r Cwsmer dderbyn dosbarthiad fesul tipyn. Os bydd y Cwsmer yn nodi neu'n cytuno i dderbyn nwyddau fesul tipyn yn yr Archeb berthnasol, bydd unrhyw achos o wneud hynny yn hwyrach na'r dyddiad a nodir neu y cytunir arno yn yr Archeb, heb leihau effaith unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill sydd gan y Cwsmer, yn rhoi'r hawl i'r Cwsmer derfynu unrhyw ran o'r Archeb nas cyflawnwyd, a hynny'n llawn, heb fod unrhyw atebolrwydd pellach ar y Cwsmer.

7.6. Bydd yr amser dosbarthu yn hanfodol bwysig o ran cyflawni rhwymedigaethau'r Cyflenwr o dan y Contract hwn ac, os bydd y Cyflenwr yn methu â dosbarthu'r Nwyddau ar y Dyddiad Dosbarthu, caiff y Cwsmer, heb leihau effaith unrhyw hawliau a rhwymedïau eraill sydd ganddo:

(a) rhyddhau ei hun o unrhyw rwymedigaeth i dderbyn a thalu am y Nwyddau;

(b) cael nwyddau yn eu lle oddi wrth gyflenwr arall ac, yn ddarostyngedig i Amod 29, adennill unrhyw gostau a threuliau gan y Cyflenwr yr aeth iddo'n rhesymol wrth gael y cyfryw nwyddau (gan gynnwys costau gweinyddol uwch a chostau'n ymwneud ag oedi ac amharu yr aeth y Cwsmer iddynt, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt);

(c) yn ddarostyngedig i Amod 30 hawlio iawndal am unrhyw gostau, treuliau neu golledion eraill yn deillio o fethiant y Cyflenwr i ddosbarthu'r Archeb ar y Dyddiad Dosbarthu; a/neu

(d) terfynu'r Contract hwn.

7.7. Os na fydd unrhyw Nwyddau a gyflenwir i'r Cwsmer yn unol ag Archeb yn cydymffurfio ag unrhyw rai o ddarpariaethau Amod 6.1 neu nad ydynt fel arall yn unol â gofynion y Contract hwn, heb effeithio ar unrhyw hawl neu rwymedi arall sydd ar gael iddo, caiff y Cwsmer wrthod y Nwyddau.

7.8. Mewn unrhyw achos lle gwrthodir y Nwyddau gan y Cyflenwr am ba reswm bynnag:

(a) bydd y Cyflenwr, yn ddi-oed ac ar ei draul ei hun, yn mynd â'r Nwyddau a wrthodwyd ac yn eu lle, fel y'i cyfarwyddir gan y Cwsmer, yn cyflenwi Nwyddau sy'n cydymffurfio â holl ofynion y Contract hwn ac sy'n bodloni'r Cwsmer;

(b) os bydd y Cwsmer wedi talu am y Nwyddau a wrthodwyd, caiff ofyn i'r Cyflenwr ad-dalu pris y Nwyddau a wrthodwyd yn llawn (p'un a yw'r Cwsmer wedi gofyn i'r Cyflenwr atgyweirio neu ddisodli'r Nwyddau a wrthodwyd yn flaenorol ai peidio);

(c) caiff y Cwsmer archebu nwyddau amgen oddi wrth gyflenwr arall ac, yn ddarostyngedig i Amod 30, adennill unrhyw gostau a threuliau gan y Cyflenwr yr aeth iddo mewn perthynas â hynny (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, costau gweinyddol uwch a chostau'n ymwneud ag oedi ac amharu yr aeth y Cwsmer iddynt).

7.9. Mae hawliau a rhwymedïau'r Cwsmer o dan y Contract hwn ar ben yr hawliau a rhwymedïau sydd ar gael iddo o ran yr amodau statudol sy'n ymwneud â disgrifiad, ansawdd, addasrwydd at y diben a chyfatebiaeth â samplau sy'n ymhlyg yn y Cytundeb hwn o dan Ddeddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau 1982.

## 8. DISODLI AC ATGYWEIRIO

8.1. Er eu derbyn gan y Cwsmer, a heb leihau effaith unrhyw hawl arall sydd ganddo o dan y Contract hwn neu o dan y gyfraith, bydd y Cyflenwr, yn unol â dewis y Cwsmer, yn mynd ati'n brydlon i atgyweirio neu ddisodli, ar ei draul ei hun ac er boddhad y Cwsmer, unrhyw Nwyddau y mae'r Cwsmer yn rhoi gwybod iddo eu bod yn ddiffygiol o fewn cyfnod rhesymol o amser (yn dibynnu ar natur y Nwyddau) o'r dyddiad pan fydd y Nwyddau wedi dechrau cael eu defnyddio'n weithredol naill ai yn dilyn dosbarthu'r Nwyddau neu yn dilyn atgyweirio, addasu neu ddisodli'r Nwyddau neu unrhyw ran ohonynt yn unol â'r Amod hwn 8.

8.2 Yn ogystal â'r rhwymedïau o dan amod 8.1 a heb leihau effaith unrhyw un o'i hawliau eraill, caiff y Cwsmer adennill oddi wrth y Cyflenwr yr holl gostau a threuliau sy'n deillio o'r Nwyddau diffygiol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhai sydd a wnelo â'r canlynol:

(a) cael gwared ar y Nwyddau;

(b) cludo a storio'r Nwyddau;

(c) profi'r Nwyddau;

(d) ailosod ac ail-gomisiynu'r Nwyddau.

## 9. DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

9.1 Os nodir DPAion yn y Fanyleb a/neu'r Tendr, bydd y DPAion hynny'n berthnasol i gyflenwi'r Nwyddau oni bai bod unrhyw DPAion ychwanegol neu amgen yn cael eu cytuno'n ysgrifenedig gan y Partïon.

9.2. Pan nodir bod DPAion yn berthnasol (ond heb eu nodi) yn y Fanyleb, bydd y Cyflenwr a'r Cwsmer yn cwrdd o fewn ugain (20) Diwrnod Gwaith (neu gyfnod arall y cytunwyd arnynt gan y Partïon) o ddyddiad y Llythyr Bwriad i Ddyfarnu i gytuno'n ysgrifenedig ar y DPAion cymwys dros Gyfnod y Contract.

9.3. Bydd y Cyflenwr yn cyflenwi'r Nwyddau yn y fath fodd a fydd yn sicrhau bod y DPAion a gyflawnir mewn perthynas â'r Nwyddau (neu unrhyw ran o'r Nwyddau) yn hafal neu'n uwch na'r DPAion penodedig.

9.4. Rhaid i'r Cyflenwr ddarparu cofnodion sy'n nodi'r DPAion cymwys a'i berfformiad yn erbyn y DPAion ("**Adroddiad DPA**") bob mis neu gyfnod arall a bennir gan y Cwsmer o bryd i'w gilydd ("**Cyfnod Adrodd DPA**").

9.5. Bydd methiant i gyflawni'r DPAion yn rhoi'r hawl i'r Cwsmer derfynu'r Contract hwn yn unol ag Amod 34.1(o).

## 9. DIFFYG

10.1 Bydd y Cyflenwr yn atebol am wneud iawn a thalu unrhyw iawndal, costau, taliadau a threuliau sy'n deillio o dorri'r Contract neu ei esgeuluster ei hun a/neu ei Staff sy'n deillio o gyflawni'r Contract hwn ni waeth sut mae'r cyfryw iawndal, costau, taliadau a threuliau yn codi.

10.2 Bydd y Cyflenwr yn gwneud iawn neu'n disodli, a hynny mor gyflym â phosibl, unrhyw Nwyddau diffygiol lle ceir dyluniad, deunyddiau neu saernïaeth ddiffygiol o fewn 12 mis naill ai:

10.2.1 i ddosbarthu'r cyfryw Nwyddau i'r Cwsmer a'u derbyn ganddo; neu

10.2.2 i unrhyw achos o wneud iawn neu ddisodli'r cyfryw Nwyddau gan y Cyflenwr (pa un bynnag fydd yr hwyraf).

10.3 Rhaid i'r Cyflenwr dalu unrhyw gostau yr eir iddynt o ganlyniad i'r cyfryw achos o wneud iawn neu ddisodli Nwyddau o dan Amod 10.2.

10.4 Yn yr Amod hwn mae **"gwneud iawn"** yn golygu sicrhau bod y Nwyddau mewn cyflwr sy'n cyflawni holl rwymedigaethau'r Cyflenwr o dan y Contract hwn, ac mae **"disodli"** yn golygu disodli Nwyddau â Nwyddau sydd o'r un ansawdd o leiaf sy'n cyflawni holl rwymedigaethau'r Cyflenwr o dan y Contract hwn.

10.5 Os bydd y Cyflenwr yn gwneud iawn neu'n disodli unrhyw gyfran o'r Nwyddau a gyflenwyd, bydd darpariaethau'r Contract hwn yn gymwys yn llawn i'r gyfran lle gwnaed iawn neu a ddisodlwyd fel petai'r gyfran honno wedi'i chyflenwi ar y dyddiad disodli neu adnewyddu.

10.6 At ddiben y Contract hwn bydd yr ymadrodd **"costau ychwanegol"** yn cynnwys (heb gyfyngiad) y gost resymol i'r Cwsmer yn deillio o'r amser mae ei swyddogion yn ei dreulio yn terfynu'r Contract hwn ac yn gwneud trefniadau amgen i ddarparu'r Nwyddau, unrhyw gostau ychwanegol sydd ynghlwm wrth y Nwyddau, a chostau unrhyw oedi neu amharu.

## 11. TEITL A RISG

11.1 Bydd teitl unrhyw Nwyddau, heb leihau effaith hawl y Cwsmer i wrthod y Nwyddau os byddant yn ddiffygiol, yn trosglwyddo i'r Cwsmer pan gânt eu dosbarthu.

11.2 Bydd risg y Nwyddau yn trosglwyddo i'r Cwsmer pan gânt eu derbyn ganddo.

## 12 PRIS A THALIAD

12.1 Bydd y swm sy'n daladwy gan y Cwsmer am y Nwyddau yn cael ei bennu drwy gyfeirio at y costau, ffioedd, cyfraddau neu brisiau a nodir yn y Dogfennau Tendr ar gyfer darparu'r Nwyddau ac unrhyw Wasanaethau (y **"Pris"**) a dyma fydd cydnabyddiaeth lwyr-gyfyngedig y Cyflenwr am y Nwyddau.

12.2 Bydd y Pris a delir gan y Cwsmer am bob Archeb wedi'i nodi yn yr Archeb a dyma fydd cydnabyddiaeth lwyr-gyfyngedig y Cyflenwr o ran cyflawni'r Archeb.

12.3 Bydd y Pris yn cynnwys costau pecynnu, yswiriant, dosbarthu, gosod a chludo'r Nwyddau.

12.4 Nid yw'r Pris yn cynnwys TAW. Bydd y Cwsmer yn talu TAW ar y Pris ar y gyfradd ac yn y modd a ragnodir gan y gyfraith, o bryd i'w gilydd.

12.5 Bydd yr holl anfonebau y bydd y Cyflenwr yn eu rhoi i'r Cwsmer yn anfonebau TAW dilys a byddant yn cynnwys y Rhif(au) Archeb a disgrifiad llawn o’r Nwyddau a gyflenwyd a’r Pris y mae'r anfoneb yn ymwneud ag ef neu â nhw, a byddant mewn sterling.

12.6 Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod pob anfoneb yn dangos yr wybodaeth ganlynol yn glir (lle y bo'n gymwys):

12.6.1 enw a chyfeiriad y Cyflenwr;

12.6.2 y cyfnod y mae'r taliad yn ymwneud ag ef.

12.7 Os bydd yr anfoneb a gyflwynir yn anghywir, caiff y Cwsmer ei ddychwelyd i'r Cyflenwr ar ffurf ymholiad, a/neu godi unrhyw ymholiad neu ofyn am wybodaeth, a bydd y Cyflenwr yn ateb unrhyw gais o'r fath o fewn pum diwrnod gwaith. Ni fydd y cyfnod talu yn cychwyn hyd nes y bydd Adran Gyllid y Cwsmer yn cael anfoneb gywir.

12.8 Telir anfonebau gan y Cwsmer am Nwyddau a gyflenwir, yn ôl disgresiwn y Cwsmer, ar ffurf system BACS neu Gerdyn Prynu Cymreig Barclaycard. Os mai'r Cerdyn Prynu Cymreig yw'r dewis ddull o dalu, y Cyflenwr yn unig fydd yn gyfrifol am dalu ffi fasnachol darparwr y cerdyn ac ni chaiff y Cyflenwr adennill y ffi fasnachol hon oddi wrth y Cwsmer.

12.9 Gwneir taliad gan y Cwsmer o fewn 30 diwrnod i gael anfoneb ddilys a chytûn gan y Cyflenwr (a anfonir i gyfeiriad enwebedig y Cwsmer ar gyfer anfonebau).

12.10 Os bydd y Cwsmer yn anghytuno ag unrhyw anfoneb neu ddatganiad arall ar gyfer arian dyledus, bydd yn hysbysu'r Cyflenwr yn ysgrifenedig yn ddi-oed. Bydd y Partïon yn negodi'n ddidwyll mewn ymgais i ddatrys yr anghydfod yn brydlon. Bydd y Cyflenwr yn darparu'r holl gyfryw dystiolaeth ag y gall fod ei hangen yn rhesymol er mwyn cadarnhau'r anfoneb neu'r cais am daliad yr anghytunir ag ef.

12.11 Os na fydd y Partïon wedi datrys yr anghydfod o fewn 30 diwrnod i hysbysu'r Cyflenwr gan y Cwsmer, caiff yr anghydfod ei ddatrys yn unol ag Amod 37. Os mai dim ond rhan o anfoneb yr anghytunir â hi, telir y swm hwnnw yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn. Ni fydd anghydfod ynghylch taliad yn effeithio ar rwymedigaethau'r Cyflenwr i gyflenwi'r Nwyddau.

12.12 Lle bydd y Cyflenwr yn ymrwymo i Is-Gontract, bydd y Cyflenwr yn cynnwys ynddo:

12.12.1 darpariaeth sy'n nodi, lle bydd yr Is-Gontractiwr yn cyflwyno anfoneb i'r Cyflenwr, y bydd y Cyflenwr yn ystyried ac yn cadarnhau'r anfoneb honno mewn modd amserol a bydd yn hysbysu'r Is-gontractwr heb oedi diangen os yw'r Cyflenwr yn anghytuno a'r anfoneb neu'n ei hystyried yn annilys;

12.12.2 darpariaeth sy'n nodi y bydd y Cyflenwr yn talu'r Is-Gontractiwr unrhyw symiau sy'n ddyledus o dan y cyfryw anfoneb o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad y derbyniwyd anfoneb yn ddilys ac yn gytûn; a

12.12.3 darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i barti i gontract yr Is-Gontract hwnnw gynnwys mewn unrhyw Is-Gontract y mae'n ei ddyfarnu ddarpariaethau sydd â'r un effaith ag Amodau 12.12 i 11.2.2 (cynhwysol).

12.13 Yn yr Amod 12 hwn, mae **"Is-Gontract"** yn golygu Is-Gontract ar unrhyw bellter o'r Cwsmer mewn cadwyn is-gontractio, a wneir yn gyfan gwbl neu'n sylweddol at ddiben cyflawni (neu gyfrannu at gyflawni) y Cytundeb hwn yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol.

## 13 GWARANTAU AC YMHONIADAU

13.1 Mae'r Cyflenwr yn gwarantu ac yn ymhonni:

13.1.1 bod ganddo'r capasiti a'r awdurdod llawn i ymrwymo i'r Contract hwn a'i gyflawni a bod y Contract hwn yn cael ei gyflawni gan un o gynrychiolwyr y Cyflenwr sydd wedi'i awdurdodi'n briodol;

13.1.2 y bydd y Nwyddau (i'r graddau sy'n ofynnol o dan y Contract hwn) yn cael eu cyflenwi, eu gosod, eu profi a'u comisiynu, a'u cynnal a'u cadw a'u hatgyweirio wedyn, gan bersonél profiadol, cymwysedig a hyfforddedig priodol yn unol ag Arfer Da'r Diwydiant;

13.1.3 ar y Dyddiad Cychwyn, bod yr holl wybodaeth yn ei Dendr yn parhau'n wir, yn gywir, ac nad yw'n gamarweiniol, heblaw fel y gellir bod wedi'i ddatgan yn benodol yn ysgrifenedig i'r Cwsmer cyn cyflawni'r Contract hwn;

13.1.4 y bydd yn cyflawni ei rwymedigaethau drwy hyn â'r holl fedr, gofal a diwydrwydd priodol gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Arfer Da'r Diwydiant a (heb gyfyngu cyffredinolrwydd yr Amod 13 hwn) yn unol â'i weithdrefnau mewnol sefydledig ei hun;

13.1.5 na fydd yn cymryd unrhyw gamau nac yn gwneud unrhyw hepgoriad lle y caiff anfri ei ddwyn ar Weinidogion Cymru.

**14 NEWID Y MAN GWNEUTHURO**

14.1 Lle y bydd y Cyflenwr wedi nodi y caiff y Nwyddau eu gwneuthuro mewn man neu fannau penodol, ni fydd yn newid y cyfryw fan neu fannau heb gael cydsyniad ysgrifenedig y Cwsmer ymlaen llaw (ni ddylai'r cyfryw gydsyniad gael ei gadw'n ôl na'i oedi'n afresymol) ac ni fydd unrhyw newid o'r fath yn arwain at ganlyniadau ariannol i'r Cwsmer.

**15. GWRTHGYFRIF**

15.1 Caiff y Cwsmer, ar unrhyw adeg, wrthgyfrif unrhyw rwymedigaeth sydd gan y Cyflenwr i'r Cwsmer yn erbyn unrhyw rwymedigaeth sydd gan y Cwsmer i'r Cyflenwr, p'un a yw'r naill rwymedigaeth neu'r llall yn bodoli nawr neu'n mynd i fodoli yn y dyfodol, yn benodedig neu'n amhenodedig, a ph'un a yw'r naill rwymedigaeth neu'r llall yn codi o dan y Contract hwn.

15.2 Ni fydd unrhyw achos gan y Cwsmer o arfer ei hawliau o dan yr Amod 15 hwn yn cyfyngu nac yn effeithio ar unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill sydd ar gael iddo o dan y Contract hwn neu fel arall.

**16. POLISÏAU**

16.1 Bydd y Cyflenwr yn sicrhau ei fod ef, a'i holl Bersonél, yn cydymffurfio â holl bolisïau cyhoeddedig y Cwsmer ac ag unrhyw reolau, codau ymarfer, gweithdrefnau a safonau pellach y mae'r Cwsmer yn eu nodi yn y Fanyleb neu'n hysbysu'r Cyflenwr amdanynt o bryd i'w gilydd. Drwy gydol Cyfnod y Contract, bydd y Cwsmer yn sicrhau bod unrhyw newidiadau i unrhyw bolisïau, rheolau, codau ymarfer, gweithdrefnau a safonau yn cael eu dwyn at sylw'r Cyflenwr yn ddi-oed.

**17.EIDDO DEALLUSOL**

17.1 Bydd yr holl Hawliau Eiddo Deallusol ym mhob deunydd (ym mha fformat bynnag) gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddogfennau, manylebau, cyfarwyddiadau, data, cronfeydd data, cynlluniau, adroddiadau, darluniau, dyfeisiadau, patentau, patrymau, modelau, dyluniadau, rhaglenni neu ddeunydd arall:

17.1.1.a roddir i'r Cyflenwr gan y Cwsmer neu sydd ar gael i'r Cyflenwr gan y Cwsmer (**"Deunyddiau'r Cwsmer"**) yn parhau i fod yn eiddo i'r Cwsmer;

17.1.2.a baratoir neu a gesglir gan neu ar gyfer y Cyflenwr ar ôl y Dyddiad Cychwyn i'w defnyddio, neu at ddefnydd bwriadedig, mewn perthynas â chyflawni'r Contract hwn (**"Deunyddiau'r Cyflenwr"**) drwy hyn yn cael eu neilltuo i'r Goron neu eu breinio ynddi'n gyfan gwbl.

17.2. Bydd y Cyflenwr yn ddi-oed, ar gais y Cwsmer, yn cyflawni pob cyfryw weithred bellach ac yn cyflawni pob cyfryw ddogfen arall ag y gall y Cwsmer ofyn amdani at ddiben sicrhau i'r Cwsmer bob hawl, teitl a budd yn ac i'r Hawliau Eiddo Deallusol a phob hawl arall a neilltuir i'r Cwsmer o dan Amod 17.1.2.

17.3Ni fydd gan y Cyflenwr yr hawl i ddefnyddio unrhyw rai o Ddeunyddiau'r Cwsmer na Deunyddiau'r Cyflenwr at ei ddibenion masnachol ei hun, oni fydd yn cael cydsyniad ysgrifenedig y Cwsmer ymlaen llaw, ac yn amodol ar y cyfryw delerau ac amodau y gall y Cwsmer eu datgan.

17.4 Ar unrhyw adeg yn ystod Cyfnod y Contract bydd y Cyflenwr, ar gais, yn darparu copi o unrhyw rai o Ddeunyddiau'r Cyflenwr i'r Cwsmer. Pan fydd y Contract hwn yn cael ei derfynu neu'n dod i ben, neu ar ôl hynny, bydd y Cyflenwr, yn unol â dewis y Cwsmer, naill ai'n dinistrio neu'n cyflwyno i'r Cwsmer holl Ddeunyddiau'r Cwsmer a gedwir ganddo neu unrhyw aelod o'i Bersonél mewn cysylltiad â'r Contract hwn, gan gynnwys unrhyw gyfryngau wrth gefn (heblaw lle y caiff y Cyflenwr, gyda chaniatâd y Cwsmer, gadw un copi o'r cyfryw ddeunyddiau at ddibenion archwilio yn unig ac yn unol â rhwymedigaethau cyfrinachedd).

17.5 Bydd y Cyflenwr yn hysbysu'r Cwsmer ar unwaith os gwneir unrhyw hawliad neu orchymyn neu os cymerir unrhyw gamau yn erbyn y Cyflenwr am dorri unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol, neu honiad o hynny, mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract hwn. Ar ei draul ei hun bydd y Cyflenwr yn dilyn unrhyw broses ymgyfreitha sy'n deillio o unrhyw gyfryw hawliad, gorchymyn neu gam a phob negodiad cysylltiedig ar yr amod y bydd y Cyflenwr bob amser yn ymgynghori â'r Cwsmer ynghylch pob mater o bwys sy'n codi yn ystod y cyfryw gamau ymgyfreitha a negodi ac y bydd yn hynny o beth yn rhoi sylw priodol i fuddiannau'r Cwsmer.

17.6 Ar gais y Cyflenwr bydd y Cwsmer yn darparu pob cymorth rhesymol iddo at ddiben ymladd unrhyw hawliad neu orchymyn neu gam yn erbyn y Cwsmer neu'r Cyflenwr am dorri unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol, neu honiad o hynny, mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract hwn ac ad-delir y Cwsmer am yr holl gostau a threuliau (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gost gyfreithiol ac alldaliadau ar sail cleient y cyfreithiwr ei hun) yr aiff iddo.

17.7 Ni wnaiff y Cwsmer unrhyw gyfaddefiadau a all niweidio amddiffyniad neu setliad unrhyw hawliad, gorchymyn neu gam am dorri unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol, neu honiad o hynny, gan y Cwsmer neu'r Cyflenwr mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract hwn.

17.8 Os bydd unrhyw hawliad, gorchymyn neu gam am dorri unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol, neu honiad o hynny, mewn cysylltiad â'r Contract hwn neu y mae'r Cyflenwr o'r farn resymol bod hynny'n debygol, bydd y Cyflenwr ar ei draul ei hun ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Cwsmer (heb ei chadw'n ôl na'i hoedi'n afresymol) naill ai'n:

17.8.1.addasu unrhyw rai neu bob un o'r Nwyddau heb leihau eu hansawdd na'u haddasrwydd at y diben, neu'n cyflenwi Nwyddau amgen sydd o'r un ansawdd ac addasrwydd at y diben, er mwyn osgoi achos o dorri neu honiad o dorri'r cyfryw Hawliau, ar yr amod y bydd y Contract hwn yn cymhwyso *mutatis mutandis* i'r cyfryw Nwyddau a addaswyd neu'r Nwyddau amgen; neu

17.8.2. yn caffael trwydded i ddefnyddio'r Hawliau Eiddo Deallusol sy'n destun yr achos o dorri neu'r honiad o dorri'r cyfryw Hawliau, ar sail telerau sy'n dderbyniol i'r Cwsmer.

17.9 Os gwneir unrhyw hawliad neu orchymyn, neu os cymerir unrhyw gamau, yn erbyn y Cwsmer am dorri unrhyw Hawl Eiddo Deallusol, neu honiad o hynny, mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract hwn bydd Amod 29 yn gymwys a bydd y Cyflenwr, ar ei draul ei hun, yn darparu i'r Cwsmer yr holl gyfryw gymorth ag sydd ei angen ar y Cwsmer mewn cysylltiad â'r cyfryw weithred.

## 18. PERSONÉL Y CYFLENWR

18.1. Mae'r Cwsmer yn cadw'r hawl o dan y Contract hwn i wrthod gadael i unrhyw aelodau o Bersonél y Cyflenwr gael mynediad i unrhyw un o'i safleoedd os yw hynny, ym marn y Cwsmer, yn annymunol neu'n ddiangen.

18.2. Os a phryd y bydd y Cwsmer yn gofyn iddo wneud hynny, bydd y Cyflenwr yn darparu rhestr o enwau a chyfeiriadau pawb y gall fod angen mynediad arnynt mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract hwn i unrhyw un o'i safleoedd, gan nodi ym mha rinwedd y maent yn ymwneud â'r Contract hwn ac unrhyw fanylion eraill y gall y Cwsmer ofyn amdanynt yn rhesymol.

18.3. Bydd y Cyflenwr a'i Bersonél yn cydymffurfio â'r cyfryw reolau, rheoliadau a gofynion (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â threfniadau diogelwch) ag y gall fod mewn grym o bryd i'w gilydd o ran ymddygiad Personél pan fyddant ar unrhyw un o Safleoedd y Cwsmer, neu yn y cyffiniau.

18.4. Bydd penderfyniad y Cwsmer ynghylch a wrthodir caniatáu mynediad i unrhyw unigolyn i unrhyw un o'i Safleoedd ac a yw'r Cyflenwr wedi methu â chydymffurfio ag Amod 18.3 yn derfynol.

18.5. Os bydd y Cyflenwr yn methu â chydymffurfio ag Amod 18.3 neu'n methu â gwneud hynny o fewn amser rhesymol i gael ei hysbysu i wneud hynny, yna caiff y Cwsmer derfynu'r Contract hwn yn unol ag Amod 34.1(a) ar yr amod bob amser na fydd y cyfryw achos o derfynu yn lleihau effaith nac yn effeithio ar unrhyw hawl i ddwyn achos neu rwymedi a fydd wedi cronni neu a fydd yn cronni wedyn i'r Cwsmer.

## 19. GOFYNION AMGYLCHEDDOL

19.1. Bydd y Cyflenwr:

i. yn cymryd camau cynaliadwy i reoli gwastraff, heb drin, cadw na gwaredu unrhyw wastraff a gynhyrchir a/neu a gludir gan y Cyflenwr mewn cysylltiad â chyflawni'r Contract hwn mewn ffordd sy'n debygol o beri niwed i iechyd a diogelwch unrhyw berson na difrodi'r amgylchedd, a bydd yn cydymffurfio â'r holl Ddeddfwriaeth berthnasol;

ii. yn cyflawni'r Contract hwn mewn ffordd sy'n arbed ynni, dŵr, pren, papur ac adnoddau eraill, yn lleihau gwastraff ac yn rhoi'r gorau i ddefnyddio sylweddau sy'n teneuo'r osôn ac yn rhyddhau cyn lleied o nwyon tŷ gwydr, cyfansoddion organig

anweddol a sylweddau eraill sy'n niweidiol i iechyd ac yn difrodi'r amgylchedd â phosibl;

**iii.** yn ystod Cyfnod y Contract, cymryd y cyfryw gamau ag sy'n rhesymol ymarferol i osgoi (neu, lle na ellir gwneud hynny, leihau) difrod i'r amgylchedd.

**20. GWAHANIAETHU A CHYDRADDOLDEB**

20.1. Bydd y Cyflenwr yn sicrhau ei fod yn bodloni holl ofynion perthnasol yr holl Ddeddfwriaeth, rheoliadau a dyletswyddau cyfredol ar gydraddoldebau gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a phob Deddfwriaeth debyg arall (**"Deddfwriaeth Cydraddoldeb"**) sydd mewn grym o bryd i'w gilydd ynghyd ag unrhyw ganllawiau neu godau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a bydd hefyd yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn ac yn darparu'r Gwasanaethau mewn ffordd sy'n gyson â pholisïau cydraddoldeb y Cwsmer.

20.2. Ni wnaiff y Cyflenwr wahaniaethau'n anghyfreithlon o fewn ystyr a chwmpas unrhyw gyfraith, deddfiad, gorchymyn neu reoliad yn ymwneud â gwahaniaethu (p'un ai ar sail oedran, hil, rhyw, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu fel arall) ym maes cyflogaeth.

20.3. Bydd y Cyflenwr yn darparu unrhyw wybodaeth y bydd y Cwsmer yn gofyn amdani'n rhesymol o ran y cyfryw Ddeddfwriaeth Cydraddoldeb i'r graddau y mae'n ymwneud â chyflawni'r Contract hwn.

20.4. Bydd y Cyflenwr yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau y dilynir yr Amod 20 hwn gan ei holl Bersonél wrth gyflawni'r Contract hwn.

20.5. Bydd y Cyflenwr yn darparu'r cyfryw wybodaeth ag y gall y Cwsmer ofyn amdani o bryd i'w gilydd am gadwyn gyflenwi'r Cyflenwr ar gyfer y nwyddau a'r Gwasanaethau a ddarperir mewn cysylltiad â'r Contract hwn.

**21. CYFRINACHEDD**

21.1. Mae'r Cyflenwr yn cydnabod bod unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol y mae'n ei chael gan y Cwsmer neu sy'n ymwneud â'r Cwsmer neu ei Bersonél yn eiddo i'r Cwsmer.

21.2. Ac eithrio i'r graddau a amlinellir yn yr Amod 21 hwn neu lle y caniateir datgelu'n benodol rywle arall yn y Contract hwn, bydd pob Parti yn:

(a) trin Gwybodaeth Gyfrinachol y Parti arall yn gyfrinachol ac yn ei diogelu'n briodol;

(b) sicrhau nad yw'n datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol y Parti arall i unrhyw berson arall heb gydsyniad ysgrifenedig y Parti hwnnw (neu'r perchennog, os yw'n wahanol) ymlaen llaw.

21.3. Ni fydd Amod 21.2 yn gymwys i'r graddau:

(a) y mae'r cyfryw ddatgeliad yn ofyniad o dan y gyfraith a osodir ar y Parti sy'n gwneud y datgeliad, gan gynnwys unrhyw ofynion o ran datgelu o dan Ddeddf 2000 neu Reoliadau 2004 yn unol ag Amod 23 neu o ran datgelu i awdurdod rheoleiddiol (gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, Archwilio Cymru);

(b) yr oedd y cyfryw wybodaeth ym meddiant y Parti sy'n gwneud y datgeliad heb fod rhwymedigaeth o ran cyfrinachedd cyn ei datgelu gan berchennog y wybodaeth;

(c) yr oedd y cyfryw wybodaeth eisoes wedi'i chyhoeddi ar adeg ei datgelu heblaw drwy dorri'r Contract hwn; neu

(d) mae wedi'i datblygu'n annibynnol heb fynediad i Wybodaeth Gyfrinachol y Parti arall.

21.4. Dim ond i Bersonél y Cyflenwr sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu'r Gwasanaethau ac sydd angen gwybod y Wybodaeth Gyfrinachol y caiff y Cyflenwr ddatgelu Gwybodaeth Gyfrinachol y Cwsmer, a bydd yn sicrhau bod y cyfryw Bersonél yn ymwybodol o'r rhwymedigaethau hyn ac yn cydymffurfio â nhw o ran cyfrinachedd ac yn rhwym i rwymedigaethau cyfrinachedd sy'n cyfateb i'r rhai a nodir yn yr Amod 21 hwn.

21.5. Ni fydd y Cyflenwr, a bydd yn sicrhau nad yw ei Bersonél, yn defnyddio Gwybodaeth Gyfrinachol y Cwsmer mewn unrhyw ffordd heblaw at ddibenion y Contract hwn.

21.6. Mae'r Cyflenwr yn ymgymryd (ac eithrio fel y gall fod yn ofynnol gan Ddeddfwriaeth neu er mwyn cyfarwyddo cynghorwyr proffesiynol mewn cysylltiad â'r Contract hwn a fydd yn rhwym i gyflawni rhwymedigaethau cyfrinachedd sy'n cyfateb i'r rhai a nodir yn yr Amod 21 hwn) na fydd yn:

(a) datgelu nac yn caniatáu datgelu unrhyw fanylion am y Contract hwn i'r cyfryngau newyddion nac unrhyw drydydd parti heblaw Personél y Cyflenwr;

(b) datgelu bod y Cwsmer yn un o Gwsmeriaid y Cyflenwr; neu

(c) defnyddio enw a/neu frand y Cwsmer mewn unrhyw ddeunydd marchnata nac wrth gyhoeddi archebion, heb gydsyniad ysgrifenedig y Cwsmer ymlaen llaw.

21.7. Ar gais ysgrifenedig y Cwsmer, bydd y Cyflenwr yn trefnu i'r aelodau hynny o Bersonél y Cyflenwr a nodir yng nghais y Cwsmer lofnodi Ymgymeriad Cyfrinachedd cyn cychwyn unrhyw waith yn unol â'r Contract hwn.

21.8. Os bydd y Cyflenwr yn methu â chydymffurfio â'r Amod 21 hwn ceidw'r Cwsmer yr hawl i derfynu'r Contract hwn drwy hysbysiad a ddaw i rym ar unwaith.

## 22. DIOGELWCH GWYBODAETH GYFRINACHOL

22.1. Er mwyn sicrhau nad oes neb heb awdurdod yn cael mynediad i unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol a geir wrth gyflawni'r Contract hwn, bydd y Cyflenwr:

(a) yn cydymffurfio â gofynion diogelwch y Cwsmer a nodir yn y Fanyleb neu fel arall y cytunir arnynt yn ysgrifenedig;

(b) yn ymgymryd i gynnal systemau diogelwch priodol, a all gael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Cwsmer.

22.2. Bydd y Cyflenwr yn hysbysu'r Cwsmer ar unwaith am unrhyw achos o dorri diogelwch mewn perthynas â Gwybodaeth Gyfrinachol a geir neu a brosesir wrth gyflawni'r Contract hwn a bydd yn cadw cofnod o'r cyfryw doriadau. Bydd y Cyflenwr yn gwneud ei orau glas i adfer y cyfryw

Wybodaeth Gyfrinachol sut bynnag y gall gael ei chofnodi. Mae'r rhwymedigaeth hon yn ychwanegol at rwymedigaethau'r Cyflenwr o dan Amod 21.

22.3. Bydd y Cyflenwr ar ei draul ei hun yn cydweithredu â'r Cwsmer mewn unrhyw ymchwiliad y mae'r Cwsmer yn ystyried ei fod yn angenrheidiol o ganlyniad i unrhyw achos o dorri diogelwch mewn perthynas â Gwybodaeth Gyfrinachol.

22.4. Caiff y Cwsmer (gan weithredu'n rhesymol ac yn gymesur) ofyn i'r Cyflenwr newid neu ddiweddaru unrhyw system ddiogelwch ar unrhyw adeg yn ystod Cyfnod y Contract.

**23. RHYDDID GWYBODAETH**

23.1. Mae'r Cyflenwr yn cydnabod bod y Cwsmer yn ddarostyngedig i ofynion Deddf 2000 a Rheoliadau 2004 a bydd yn cynorthwyo'r Cwsmer ac yn cydweithredu ag ef (ar draul y Cyflenwr) er mwyn galluogi'r Cwsmer i fodloni'r gofynion datgelu gwybodaeth hyn.

23.2. Bydd y Cyflenwr yn gwneud y canlynol, ac yn sicrhau bod ei Bersonél yn ei wneud hefyd:

(a) hysbysu'r Cwsmer am unrhyw Gais am Wybodaeth mewn cysylltiad â'r Contract hwn cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo ddod i law ac o fewn dau (2) Ddiwrnod Gwaith sut bynnag i gael Cais am Wybodaeth ac yn dilyn unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Cwsmer;

(b) darparu copi o'r holl Wybodaeth sydd yn ei feddiant neu yn ei bŵer i'r Cwsmer a hynny ar y ffurf ofynnol mewn cysylltiad â Chais am Wybodaeth o fewn pum (5) Diwrnod Gwaith (neu'r cyfryw gyfnod arall ag y gall y Cwsmer ei nodi) i'r adeg y bydd y Cwsmer yn gofyn amdani;

(c) rhoi'r holl gymorth angenrheidiol y bydd y Cwsmer yn gofyn amdano'n rhesymol er mwyn galluogi'r Cwsmer i ymateb i Gais am Wybodaeth o fewn yr amser ar gyfer cydymffurfio a nodir yn adran 10 o’r Ddeddf neu Reoliad 5(2) o’r Rheoliadau.

23.3. At ddibenion Amod 23.2, bydd **"cymorth rhesymol"** yn cynnwys golygu dogfennaeth o fewn pum (5) Diwrnod Gwaith i gais gan y Cwsmer i wneud hynny.

23.4. Bydd y Cwsmer yn gyfrifol am bennu, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, a yw'r Wybodaeth Gyfrinachol a/neu unrhyw Wybodaeth arall:

(a) wedi'i heithrio o ran ei datgelu o dan Ddeddf 2000 neu Reoliadau 2004;

(b) i'w datgelu mewn ymateb i Gais am Wybodaeth.

23.5. Ni chaiff y Cyflenwr ymateb yn uniongyrchol i Gais am Wybodaeth oni fydd wedi cael ei awdurdodi'n benodol i wneud hynny gan y Cwsmer.

23.6. Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a gyflwynir mewn cysylltiad â'r broses dendro hon neu yn ystod y Contract hwn neu'n ymwneud â'r Contract hwn yn cael ei chadw i'w datgelu a bydd yn caniatáu i'r Cwsmer archwilio'r cyfryw gofnodion fel y gall ofyn am ei wneud o bryd i'w gilydd.

23.7. Mae'r Cyflenwr yn cydnabod mai gwerth dangosol yn unig sydd i unrhyw restrau neu atodlenni a ddarperir ganddo fel rhan o'r broses dendro sy'n nodi Gwybodaeth Gyfrinachol y Cyflenwr ac y gall y Cwsmer serch hynny orfod datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol yn unol â'r Amod 23 hwn.

**24. CYHOEDDUSRWYDD**

24.1. Ac eithrio lle ceir cydsyniad ysgrifenedig y Parti arall, a lle na chaiff y cyfryw gydsyniad ei gadw'n ôl na'i oedi'n afresymol, ni fydd y naill barti na'r llall yn gwneud unrhyw gyhoeddiadau i'r wasg nac yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r Contract hwn (ac eithrio fel sy'n rhesymol angenrheidiol i gyflenwi'r Nwyddau) mewn unrhyw ffordd.

24.2. Bydd y ddau Barti yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau y bodlonir darpariaethau Amod 24.1 gan eu holl Bersonél perthnasol.

24.3. Ni fydd y naill Barti na'r llall yn defnyddio logos busnes nac yn rhoi cyhoeddusrwydd i logos busnes y Parti arall naill ai mewn print neu'n electronig heb gydsyniad ysgrifenedig penodol y Parti arall, lle na chaiff y cyfryw gydsyniad ei gadw'n ôl na'i oedi'n afresymol.

24.4. Er y darpariaethau yn Amod 24.1, bydd gan y Cwsmer hawl i roi cyhoeddusrwydd i'r Contract hwn yn unol ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol sydd ar y Cwsmer, gan gynnwys unrhyw archwiliad o'r Contract hwn gan Archwilio Cymru a darpariaethau Deddf 2000 neu Reoliadau 2004.

24.5. Mae'r Partïon yn cydnabod bod gan Archwilio Cymru yr hawl i gyhoeddi manylion y Contract hwn (gan gynnwys Gwybodaeth Gyfrinachol) yn ei hadroddiadau perthnasol i'r graddau a ganiateir ac sy'n ofynnol gan y gyfraith.

**25. NEWID DEDDFWRIAETHOL**

25.1 Y Cyflenwr fydd yn gyfrifol am gost cydymffurfio â'r holl Ddeddfwriaeth ac unrhyw ddiwygiadau iddi sy'n ymwneud â darparu'r Nwyddau. Os bydd newid mewn Deddfwriaeth yn gofyn am newid perthnasol i gyflawni'r Contract hwn gan y Cyflenwr ac ar yr amod bod y cyfryw newid Deddfwriaethol:

(a) yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni'r Contract hwn yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol ac nad yw'n gofyn am newid ar draws y busnes neu'r sefydliad i'r nwyddau a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyflenwr yn gyffredinol, nac i'r gweithdrefnau a'r prosesau a ddefnyddir gan y Cyflenwr wrth gyflawni ei fusnes;

(b) yn un na allai'r Cyflenwr fod wedi'i ragweld yn rhesymol ar y Dyddiad Cychwyn,

bydd y Partïon yn negodi i wneud y cyfryw addasiadau i'r Pris fel y gall fod ei angen i wneud iawn i'r Cyflenwr am unrhyw gostau ychwanegol y mae'n mynd iddynt yn rhesymol ac o angenrhaid wrth gyflawni'r cyfryw newidiadau. Os na all y Partïon ddod i gytundeb ynghylch y cyfryw gostau o fewn amser rhesymol, yna caiff y Cwsmer, yn ôl ei ddisgresiwn, derfynu'r Contract hwn yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy hysbysiad.

**26. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

26.1 Bydd y Cyflenwr yn cymryd camau priodol i sicrhau nad yw ef na'i Bersonél mewn sefyllfa lle mae neu lle gall fod gwrthdaro gwirioneddol, neu wrthdaro posibl, rhwng buddiannau ariannol neu bersonol y cyfryw bersonau a'r dyletswyddau sy'n ddyledus i'r Cwsmer o dan

ddarpariaethau'r Contract hwn. Bydd y Cyflenwr yn datgelu i'r Cwsmer holl fanylion unrhyw wrthdaro buddiannau o'r fath a all godi.

26.2 Os na ddatgelir y wybodaeth hon, fe'i hystyrir yn dorri Contract perthnasol na ellir ei unioni a chaiff y Contract hwn ei derfynu yn unol ag Amod 34.1.

## 27. RHODDION LLYGREDIG, TALU COMISIWN AC ATAL LLWGRWOBRWYO

27.1. Ni fydd y Cyflenwr, a bydd yn sicrhau nad yw ei Bersonél, yn cyflawni unrhyw Weithred Waharddedig mewn cysylltiad â'r Contract hwn.

27.2. Mae'r Cyflenwr yn gwarantu, yn nodi ac yn ymgymryd nad yw'n ymwybodol o unrhyw fantais ariannol na mantais arall a roddir i unrhyw un sy'n gweithio i'r Cwsmer, neu a ddefnyddir gan y Cwsmer, nac ychwaith fod cytundeb i'r perwyl hwnnw, mewn cysylltiad â dyfarnu'r Contract hwn i'r Cyflenwr, heb gynnwys unrhyw drefniant y mae'r holl fanylion amdano wedi'u datgelu'n ysgrifenedig i'r Cwsmer cyn dyfarnu'r Contract hwn i'r Cyflenwr.

27.3. Bydd y Cyflenwr:

(a) os gofynnir iddo, yn rhoi unrhyw gymorth rhesymol i'r Cwsmer er mwyn galluogi'r Cwsmer i gyflawni unrhyw weithgaredd sydd ei angen gan unrhyw lywodraeth neu asiantaeth berthnasol mewn unrhyw awdurdodaeth berthnasol at ddiben cydymffurfio â Deddf Llwgrwobrwyo 2010;

(b) o fewn 14 diwrnod gwaith i ddyddiad y Llythyr Dyfarnu, a bob blwyddyn wedi hynny, rhoi cadarnhad ysgrifenedig i'r Cwsmer (a lofnodir gan un o uwch-swyddogion y Cyflenwr) o gydymffurfiaeth â'r Amod 27 hwn gan y Cyflenwr a phawb sy'n gysylltiedig ag ef neu unrhyw berson arall sy'n cyflenwi nwyddau neu'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â'r Contract hwn. Bydd y Cyflenwr yn darparu'r cyfryw dystiolaeth ategol o gydymffurfiaeth ag y gall y Cwsmer ofyn amdani'n rhesymol.

27.4. Bydd gan y Cyflenwr bolisi atal llwgrwobrwyo (a ddatgelir i'r Cwsmer) er mwyn atal unrhyw aelod o Bersonél y Cyflenwr rhag cyflawni Gweithred Waharddedig a bydd yn ei orfodi lle y bo'n briodol.

27.5. Os bydd unrhyw achos o dorri Amod 27.1 neu 27.2 yn hysbys neu'n cael ei amau, rhaid i'r Cyflenwr hysbysu'r Cwsmer ar unwaith.

27.6. Os bydd y Cyflenwr yn hysbysu'r Cwsmer ei fod yn amau neu'n gwybod am achos o dorri Amod 27.1 neu 27.2, rhaid i'r Cyflenwr ymateb yn brydlon i ymholiadau'r Cwsmer, cydweithredu ag unrhyw ymchwiliad, a chaniatáu i'r Cwsmer archwilio llyfrau archwilio, cofnodion ac unrhyw ddogfennaeth berthnasol arall.

27.7. Caiff y Cwsmer derfynu'r Contract hwn drwy hysbysiad a ddaw i rym ar unwaith os bydd y Cyflenwr neu ei Bersonél (ym mhob achos p'un a yw'r Cyflenwr yn gwybod ai peidio) yn torri Amodau 27.1 neu 27.2.

27.8. Rhaid i unrhyw hysbysiad o derfynu o dan Amod 27.7 nodi'r canlynol:

(a) natur y Weithred Waharddedig;

(b) pwy sydd wedi cyflawni'r Weithred Waharddedig ym marn y Cwsmer;

(c) y dyddiad y terfynir y Contract hwn.

27.9. Er Amod 37, y Cwsmer fydd yn penderfynu ar unrhyw anghydfod sy'n ymwneud â:

(a) dehongli'r Amod 27 hwn; neu

(b) swm neu werth unrhyw rodd, ystyriaeth neu gomisiwn,

a bydd ei benderfyniad yn derfynol.

27.10. Ni fydd unrhyw achos o derfynu o dan Amod 27.7 yn lleihau effaith unrhyw hawl na rhwymedi sydd eisoes wedi cronni neu sy'n cronni wedyn i'r Cwsmer ac mae'r Partïon yn cytuno y caiff y Cwsmer adennill oddi wrth y Cyflenwr swm neu werth unrhyw rodd, ystyriaeth neu gomisiwn a roddwyd yn groes i'r Amod 27 hwn, ynghyd â'r holl gostau i'r Cwsmer yn deillio o derfynu a threfnu contract amgen â chyflenwr arall, gan gynnwys costau cysylltiedig unrhyw broses aildendro neu ailhysbysebu.

**28. TWYLL**

28.1. Rhaid i'r Cyflenwr gymryd pob cam rhesymol, gan gynnwys pob ymholiad ac ymchwiliad rhagarweiniol, er mwyn atal y risg o dwyll i'r Cwsmer.

28.2. Lle bydd y cyfryw gamau rhagarweiniol yn awgrymu'r posibilrwydd o dwyll neu afreoleidd-dra arall sy'n effeithio ar adnoddau'r Cwsmer, bydd y Cyflenwr yn hysbysu'r Cwsmer ar unwaith.

**29. INDEMNIAD**

29.1. Bydd y Cyflenwr yn indemnio ac yn parhau i indemnio'r Cwsmer yn llawn rhag yr holl gostau uniongyrchol, atebolrwyddau, dirwyon, treuliau, iawndal a cholledion (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, unrhyw ffioedd cyfreithiol a ffioedd proffesiynol eraill a threuliau a ddyfernir yn erbyn neu yr eir iddynt neu a delir gan y Cwsmer) o ganlyniad i'r canlynol, neu mewn cysylltiad â hwy:

(a) unrhyw hawliad a wneir yn erbyn y Cwsmer gan drydydd parti sy'n deillio o ddarparu'r Nwyddau, neu mewn cysylltiad â hynny, i'r graddau y mae'r cyfryw hawliad yn deillio o achos o dorri'r Contract hwn, esgeuluster neu fethiant neu oedi wrth gyflawni'r Contract hwn gan y Cyflenwr neu ei Bersonél;

(b) unrhyw hawliad a wneir yn erbyn y Cwsmer am dorri, neu mewn cysylltiad â thorri, Hawliau Eiddo Deallusol trydydd parti yn wirioneddol neu'n honedig sy'n deillio o'r Nwyddau, neu mewn cysylltiad â nhw;

(c) unrhyw fethiant i gydymffurfio ag unrhyw Ddeddfwriaeth;

(d) unrhyw ddifrod a achosir i Safle'r Cwsmer neu gyfarpar y Cwsmer sy'n deillio o weithred neu hepgoriad gan y Cyflenwr neu ei Bersonél.

29.2. Os codir treth ar daliad sy'n ddyledus gan y Cyflenwr o dan yr Amod 29 hwn, (naill ai drwy asesiad uniongyrchol neu ei chadw yn ôl wrth ei ffynhonnell), caiff y Cwsmer dderbyn gan

y Cyflenwr y cyfryw symiau a fydd yn sicrhau bod y swm net, ar ôl treth, i'r Cwsmer o ran y taliad yr un peth ag y byddai wedi bod os na fyddai treth ar y taliad.

## 30. CYFYNGIAD AR ATEBOLRWYDD

30.1. Ni fydd unrhyw beth yn y Contract hwn yn cyfyngu ar unrhyw atebolrwydd sydd gan y naill Barti neu'r llall nac yn ei eithrio o ran:

(a) marwolaeth unrhyw unigolyn neu anaf personol iddo o ganlyniad i esgeuluster;

(b) twyll neu gamliwio twyllodrus; neu

(c) unrhyw weithred neu hepgoriad arall, nad yw'r atebolrwydd amdani neu amdano o bosib yn gyfyngedig o dan unrhyw gyfraith gymwys.

30.2. Yn ddarostyngedig i Amod 30.1 bob amser, ac er unrhyw ddarpariaeth arall a geir ynddo, ni fydd cyfanswm atebolrwydd y Cyflenwr (boed o dan gontract, camwedd (gan gynnwys heb gyfyngiad esgeuluster) neu ddarpariaeth statudol) sy'n deillio o'r Contract hwn neu mewn cysylltiad ag ef (heb gynnwys Amodau 29.1(a) i 29.1(d) (yn gynhwysol) yn uwch na'r swm a nodir yn y Fanyleb o ran unrhyw ddigwyddiad unigol neu gyfres o ddigwyddiadau cysylltiedig. Os na fydd y Fanyleb yn nodi swm, bydd cyfanswm atebolrwydd y Cyflenwr yn anghyfyngedig.

30.3. Heb leihau rhwymedigaeth y Cwsmer i dalu'r Pris fel sy'n ddyledus, bydd atebolrwydd y Cwsmer o dan y Contract hwn yn gyfyngedig i 100% o gyfanswm y Pris sy'n daladwy am y Nwyddau a gyflenwir o dan y Contract hwn oni nodir fel arall yn y Fanyleb.

30.4. Yn ddarostyngedig i Amod 30.2 bob amser, ni fydd y naill Barti yn atebol i'r llall am y canlynol ym mha achos bynnag:

(a) colled neu ddifrod anuniongyrchol neu ganlyniadol; a/neu

(b) golli elw; a/neu

(c) golli busnes; a/neu

(d) golli refeniw; a/neu

(e) golli ewyllys da.

30.5. Nid ystyrir bod darpariaethau Amod 30.4 yn cyfyngu ar hawl y Cwsmer i hawlio gan y Cyflenwr am unrhyw:

(a) gostau a threuliau gweithredol a gweinyddol ychwanegol; a/neu

(b) unrhyw gostau neu dreuliau a ystyrir yn ddi-werth; a/neu

(c) golled neu ddifrod sy'n deillio'n uniongyrchol o ddiffyg gan y Cyflenwr.

30.6. Mae'r Partïon yn cytuno, os bydd unrhyw gyfyngiad neu ddarpariaeth yn yr Amod 30 hwn yn annilys o dan unrhyw statud neu reolaeth y gyfraith gymwys, y caiff i'r graddau hynny ei nodi wedi'i hepgor, ond os bydd unrhyw Barti drwy hynny'n dod yn atebol am golled neu ddifrod a

fyddai fel arall wedi'i (h)eithrio, bydd y cyfryw atebolrwydd yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a'r darpariaethau eraill a nodir yn yr Amod 30 hwn.

## 31. YSWIRIANT

31.1. Bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod ganddo'r yswiriant canlynol, wedi'i drefnu drwy gwmni yswiriant dilys, a bydd yn sicrhau bod gan ei holl Is-Gontractwyr sydd ynghlwm wrth ddarparu'r Nwyddau y cyfryw yswiriant hefyd:

(a) Indemniad Proffesiynol (os oes angen);

(b) Atebolrwydd Cyhoeddus (gan gynnwys os yw'n gymwys Atebolrwydd Cynhyrchion);

ym mhob achos gan gynnwys y lefel ofynnol o indemniad a nodir yn y Fanyleb. Oni nodir unrhyw lefel yn y Fanyleb, bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod ganddo'r cyfryw yswiriant, drwy gwmni yswiriant dilys, sy'n cynnwys lefel ofynnol o indemniad o filiwn o bunnoedd (£1,000,000) neu'r cyfryw lefel uwch ag sy'n gyson ag (i) Arfer Da'r Diwydiant yn y diwydiant neu'r sector busnes gwasanaethau perthnasol o fath tebyg i'r Nwyddau i'w cyflenwi o dan y Contract hwn a (ii) unrhyw Ddeddfwriaeth gymwys oni nodir fel arall yn ysgrifenedig gan y Cwsmer.

31.2. Trefnir y cyfryw yswiriant am gyfnod o chwe (6) blynedd o leiaf ar ôl i'r Contract hwn ddod i ben, neu gael ei derfynu'n gynharach.

31.3. Bydd y Cyflenwr o bryd i'w gilydd ac ar ôl cael o leiaf ddau (2) Ddiwrnod Gwaith o rybudd pan fo ei angen gan y Cwsmer, yn cyflwyno'r polisi yswiriant perthnasol a derbynebau taliadau neu dystiolaeth foddhaol arall ohono.

31.4. Os bydd y Cyflenwr neu unrhyw Is-Gontractiwr yn methu â sicrhau bod ganddo yswiriant yn unol â'r Amod 31 hwn, neu'n methu â darparu tystiolaeth yn unol ag Amod 31.3, caiff y Cwsmer (i'r graddau y gall wneud hynny), brynu'r cyfryw yswiriant amgen ag sy'n rhesymol angenrheidiol yn ei farn ef a chaiff adennill yr holl gostau a threuliau rhesymol yr aiff iddynt wrth wneud hynny gan y Cyflenwr.

31.5. Bydd gan y Cyflenwr yswiriant atebolrwydd cyflogwr o ran ei Staff yn unol ag unrhyw Ddeddfwriaeth sydd mewn grym ar y pryd.

31.6. Ni thybir bod atebolrwyddau'r Cyflenwr o dan y Contract hwn yn cael eu rhyddhau na'u cyfyngu os bydd y Cyflenwr yn trefnu'r polisïau yswiriant y cyfeirir atynt yn yr Amod 31 hwn.

31.7. Os bydd y Fanyleb yn nodi bod ei angen, bydd y Cyflenwr yn sicrhau bod budd y Cwsmer wedi'i nodi ar bob polisi yswiriant neu fod amod budd cyffredinol wedi'i gynnwys.

## 32. FORCE MAJEURE

32.1. Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau sy'n weddill yr Amod 32 hwn, caiff y naill Barti neu'r llall hawlio rhyddhad rhag atebolrwydd am beidio â chyflawni ei rwymedigaethau i'r graddau y mae hynny o ganlyniad i Ddigwyddiad Force Majeure.

32.2. Ni all Parti hawlio rhyddhad os gellir priodoli'r Digwyddiad Force Majeure i'w weithred fwriadus, esgeulstod neu fethiant ei hun i gymryd rhagofalon rhesymol rhag y Digwyddiad Force Majeure perthnasol.

32.3. Ni all Parti yr Effeithir Arno hawlio rhyddhad o ganlyniad i fethiant neu oedi gan unrhyw berson arall wrth gyflawni rhwymedigaethau'r person arall hwnnw o dan gytundeb â'r Parti yr Effeithir Arno (oni fydd y person arall hwnnw ei hun wedi'i atal rhag cydymffurfio â'i rwymedigaethau, neu wedi'i oedi yn hynny o beth, o ganlyniad i Ddigwyddiad Force Majeure).

32.4. Bydd y Parti yr Effeithir Arno yn hysbysu'r Parti arall am y Digwyddiad Force Majeure ar unwaith. Bydd yr hysbysiad yn cynnwys manylion y Digwyddiad Force Majeure ynghyd â thystiolaeth o'i effaith ar rwymedigaethau'r Parti yr Effeithir Arno, ac unrhyw gamau y mae'r Parti yr Effeithir Arno yn cynnig eu cymryd er mwyn lleihau ei effaith.

32.5. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn hysbysiad y Parti yr Effeithir Arno, bydd y Partïon yn trafod yn ddidwyll ac yn ceisio cytuno ar ffordd o gyflawni'r Contract hwn i'r graddau y bo'n rhesymol bosibl tra bo'r Digwyddiad Force Majeure yn parhau. Os na all y Partïon gytuno ar ffordd o gyflawni'r Contract hwn o fewn dau fis calendr i'r dyddiad y cafwyd hysbysiad gan y Parti yr Effeithir Arno (neu gyfnod arall o'r fath y mae'r Partïon yn cytuno arno'n ysgrifenedig), caiff y Cwsmer, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, ddewis terfynu'r Contract hwn yn llawn neu'n rhannol.

32.6. Bydd y Parti yr Effeithir Arno yn gwneud pob ymdrech resymol i barhau i gyflawni, neu ailddechrau cyflawni, y Contract hwn yn ystod y cyfryw Ddigwyddiad Force Majeure ac os mai'r Cyflenwr yw'r Parti yr Effeithir Arno, bydd yn cymryd pob cam yn unol ag Arfer Da'r Diwydiant i oresgyn neu leihau canlyniadau'r Digwyddiad Force Majeure.

32.7. Bydd y Parti yr Effeithir Arno yn hysbysu'r Parti arall cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Digwyddiad Force Majeure ddod i ben neu nad yw'n golygu na all y Parti yr Effeithir Arno gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn mwyach. Yn dilyn y cyfryw hysbysiad, bydd y Contract hwn yn parhau i gael ei gyflawni ar sail y telerau a fodolai yn union cyn y Digwyddiad Force Majeure oni chytunir fel arall gan y Partïon.

32.8. Os bydd y Digwyddiad Force Majeure yn para am gyfnod o ddau fis calendr (neu'r cyfryw gyfnod arall y cytunir arno gan y Partïon yn ysgrifenedig) o ddyddiad hysbysiad y Parti yr Effeithir Arno, caiff y Cwsmer yn ôl ei ddisgresiwn llwyr derfynu'r Contract hwn yn llawn neu'n rhannol drwy hysbysiad.

## 33. GWEITHREDU DIWYDIANNOL

33.1. Bydd y Cyflenwr yn hysbysu'r Cwsmer ar unwaith am unrhyw weithredu diwydiannol gwirioneddol neu bosibl gan Staff, boed hynny gan ei Bersonél ei hun neu eraill sy'n effeithio, neu a allai effeithio ar, ei allu ar unrhyw adeg i ddarparu'r Nwyddau yn unol â gofynion y Contract hwn. Os bydd gweithredu diwydiannol gan y cyfryw aelodau o Staff bydd y Cyflenwr yn ceisio cymeradwyaeth y Cwsmer ar gyfer unrhyw gynigion diwygiedig i ddarparu'r Gwasanaethau.

33.2. Os ystyrir bod cynigion y Cyflenwr y cyfeirir atynt yn Amod 33.1 yn annigonol neu'n annerbyniol gan y Cwsmer, caiff y Cwsmer derfynu'r Contract hwn yn llawn neu'n rhannol.

## 34. TERFYNU

34.1. Caiff y Cwsmer ar unrhyw adeg, drwy hysbysiad, derfynu'r Contract hwn o'r dyddiad y tybir y caiff y cyfryw hysbysiad ei dderbyn (fel y nodir yn Amod 40.5) os:

(a) bydd y Cyflenwr yn methu â chydymffurfio ag Amodau 6.1 a 6.2 (Y Nwyddau), 7.6 (Amser Dosbarthu), Amod 18.5 (Personél y Cyflenwr), Amod 21 (Cyfrinachedd), 22 (Diogelwch Gwybodaeth Gyfrinachol), 26 (Gwrthdaro Buddiannau), 27 (Rhoddion Llygredig a Thaliadau Comisiwn ac Atal Llwgrwobrwyo), 28 (Twyll) neu 38 (Is-Gontractio ac Aseinio); neu

(b) bydd newid rheolaeth, (yn yr Amod 34 hwn diffinnir **"rheolaeth"** fel y mae yn adran 1124 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010), o ran y Cyflenwr neu ei Riant Gwmni ar yr amod y caiff y Cwsmer ond arfer ei hawliau yn unol â'r Amod 34.1(b) hwn am chwe (6) mis calendr ar ôl pob cyfryw newid rheolaeth ac na chaiff arfer y cyfryw hawliau lle mae'r Cwsmer wedi cytuno ymlaen llaw yn ysgrifenedig i'r newid rheolaeth penodol a bod y cyfryw newid rheolaeth yn digwydd yn ôl yr arfaeth; neu

(c) mae'r Cyflenwr, fel cwmni, yn cymeradwyo penderfyniad, neu mae'r Llys yn gwneud gorchymyn y caiff y Cyflenwr neu ei Riant Gwmni ei ddirwyn i ben heblaw at ddiben ad-drefnu neu uno bona fide, neu fod derbynnydd, rheolwr neu weinyddwr ar ran credydwr yn cael ei benodi o ran y busnes neu unrhyw ran o'r Cyflenwr neu'r Rhiant Gwmni, neu mae amgylchiadau'n codi sy'n rhoi'r hawl i'r Llys neu gredydwr benodi derbynnydd, rheolwr neu weinyddwr neu sy'n rhoi'r hawl i'r Llys heblaw at ddiben ad-drefnu neu uno bona fide wneud gorchymyn dirwyn i ben, neu na all y Cyflenwr neu ei Riant Gwmni dalu ei ddyledion o fewn ystyr Adran 123 o Ddeddf Ansolfedd 1986 neu unrhyw ddigwyddiad tebyg o dan gyfraith unrhyw awdurdodaeth arall; neu

(d) bydd y Cyflenwr, fel unigolyn, neu lle mae'r Cyflenwr yn gwmni, unrhyw bartner neu bartneriaid yn y cwmni hwnnw sydd gyda'i gilydd yn gallu arfer rheolaeth uniongyrchol neu anuniongrychol, ar unrhyw adeg yn mynd yn fethdalwr neu'n cael gorchymyn derbyn neu orchymyn gweinyddu yn ei erbyn neu'n gwneud unrhyw gyfansoddiad neu drefniant gyda neu er budd ei gredydwyr, neu'n gwneud unrhyw drawsgludiad neu aseiniad er budd ei gredydwyr, neu'n honni gwneud hynny, neu'n ymddangos na all dalu neu nad oes unrhyw ragolwg rhesymol o allu talu dyled o fewn ystyr Adran 268 o Ddeddf Ansolfedd 1986 neu y daw'n ansolfent yn ôl pob tebyg o fewn ystyr Deddf Methdalu (yr Alban) 2016 neu y gwneir unrhyw gais o dan unrhyw ddeddf methdalu neu ansolfedd sydd mewn grym ar y pryd i secwestru ei ystad, neu y rhoddir gweithred ymddiriedolaeth ganddo er budd ei gredydwyr, neu fod unrhyw ddigwyddiad tebyg o dan gyfraith unrhyw awdurdodaeth arall; neu

(e) mae'r Cyflenwr yn cyflawni Diffyg na ellir ei unioni; neu

(f) mae'r Cyflenwr yn cyflawni Diffyg sy'n torri'r Contract hwn yn sylfaenol; neu

(g) mae'r Cyflenwr yn cyflawni Diffyg y gellir ei unioni ond nid yw'n gwneud hynny er boddhad y Cwsmer o fewn 25 diwrnod gwaith (neu'r cyfryw gyfnod arall a all gael ei nodi gan y Cwsmer) ar ôl cael ei hysbysu'n ysgrifenedig i wneud hynny; neu

(h) mae'r Cyflenwr yn cyflawni cyfres o Ddiffygion sydd, gyda'i gilydd, yn torri'r Contract hwn yn sylfaenol; neu

(i) mae'r Cyflenwr yn cyflawni Diffyg dro ar ôl tro mewn perthynas ag unrhyw delerau yn y Contract hwn mewn modd sy'n cyfiawnhau'n rhesymol y farn nad yw ei ymddygiad yn gyson â'r bwriad neu'r gallu i gyflawni telerau'r Contract hwn; neu

(j) mae'r Cyflenwr yn destun ymchwiliad ffurfiol, neu'n cael ei erlyn, mewn perthynas ag unrhyw drosedd o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015;

(k) mae'r Cyflenwr yn destun ymchwiliad ffurfiol, neu'n destun hawliad mewn cysylltiad â'i rwymedigaethau statudol yn ymwneud â hawliau cyflogaeth, cysylltiadau cyflogaeth, hawliau gweithio neu gydraddoldeb;

(l) mae'r Cyflenwr yn destun hawliad am dorri Deddf Hawliau Dynol 1998;

(m) mae'r Cyflenwr yn torri Deddfau Cyfrinachau Swyddogol 1911 i 1989 neu Adran 182 o Ddeddf Cyllid 1989;

(n) yn ddarostyngedig i Gymal 34.3, mae unrhyw un o'r seiliau terfynu a nodir yn Adran 78 o PA 2023 yn gymwys;

(o) mae tri (3) Adroddiad DPA yn olynol yn nodi bod y Cyflenwr wedi methu â chyflawni'r holl DPAion neu mewn unrhyw bum (5) neu fwy o Gyfnodau Adrodd DPA yn olynol (o ba bynnag hyd), mae o leiaf hanner yr Adroddiadau DPA yn nodi bod y Cyflenwr wedi methu â chyflawni'r holl DPAion. Mae'r Amod hwn heb ragfarnu unrhyw ddarpariaethau eraill yn y Dogfennau Tendr sy'n ymwneud â'r methiant i gyflawni'r DPAion; neu

(p) mae unrhyw un o'r digwyddiadau a ddisgrifir yn Amodau 34.1(b), 34.1(c) 34.1(d), 34.1(k) yn digwydd o ran Gwarantwr, mae'r Gwarantwr wedi torri unrhyw un o delerau Gwarant neu mae'n Gwarant yn mynd yn annilys neu'n anorfodadwy.

34.2. Wrth benderfynu a fydd unrhyw Ddiffyg yn sylfaenol nid ystyrir a yw'n digwydd drwy ddamwain, anffawd, camgymeriad neu gamddealltwriaeth.

34.3. Cyn terfynu'r Contract yn unol â Chymal 34.1(n), rhaid i'r Cwsmer:

34.3.1. hysbysu'r Cyflenwr o'i fwriad i derfynu'r Contract;

34.3.2. nodi pa un o'r seiliau a nodir yn Adran 78 o PA 2023 sy'n gymwys a pham ei fod wedi penderfynu terfynu'r Contract; a

34.3.3. rhoi cyfle rhesymol i'r Cyflenwr wneud sylwadau am: (i) a yw sail terfynu yn berthnasol; a (ii) penderfyniad y Cwsmer i derfynu’r Contract.

## 35. CANLYNIADAU TERFYNU A DOD I BEN

35.1. Oni nodir yn benodol fel arall bydd yr Amod 35 hwn yn gymwys pan ddaw'r Contract hwn i ben neu y'i terfynir (yn llawn neu'n rhannol) ni waeth sut mae hynny'n digwydd.

35.2. Ni fydd terfynu'r Contract hwn, nac achos lle y daw i ben, yn lleihau effaith nac yn effeithio ar unrhyw hawl i ddwyn achos neu rwymedi a fydd wedi cronni neu sy'n cronni wedyn i'r naill Barti neu'r llall.

35.3. Bydd gan y Cwsmer hawl heb leihau effaith hawliau a rhwymedïau eraill y Cwsmer i gael ad-daliad am unrhyw daliadau a wnaed ganddo o ran unrhyw Nwyddau na ddarparwyd gan y Cyflenwr erbyn y dyddiad terfynu neu ddod i ben.

35.4. Os caiff y Contract hwn ei derfynu neu os daw i ben gan y naill Barti neu'r llall, bydd darpariaethau'r Amod 35 hwn (Canlyniadau Terfynu) ac Amodau 15 (Gwrthgyfrif), 17 (Eiddo Deallusol), 21 (Cyfrinachedd), 22 (Diogelwch Gwybodaeth Gyfrinachol), 23 (Rhyddid Gwybodaeth), 24 (Cyhoeddusrwydd), 27 (Rhoddion Llygredig, Taliadau Comisiwn ac Atal Llwgrwobrwyo), 28 (Twyll), 29 (Indemniad), 30 (Cyfyngiad ar Atebolrwydd), 31 (Yswiriant), 37 (Proses Datrys Anghydfod), 40 (Hysbysiadau), 43 (Hawlildiad), a 50 (Cyfraith ac Awdurdodaeth) yn goroesi terfynu'r Contract hwn neu fod y Contract hwn yn dod i ben.

35.5. Lle bydd y Cwsmer, ar ôl iddo derfynu'r Contract yn unol ag Amod 34.1, yn ailosod y Contract hwn, neu unrhyw ran ohono, i gyflenwr amgen, bydd y Cyflenwr yn gwneud iawn i'r Cwsmer yr holl gostau, colledion, iawndal a threuliau y gall fod wedi mynd iddynt neu y gall fod yn atebol amdanynt o ganlyniad i'r cyfryw ailosod.

## 36. TORIAD

36.1. Yn ogystal â hawliau terfynu'r Cwsmer o dan Amod 34 caiff y Cwsmer derfynu'r Contract hwn drwy roi o leiaf mis o rybudd i'r Cyflenwr.

36.2. Os caiff y Contract hwn ei derfynu yn unol ag Amod 36.1 bydd y Cyflenwr:

(a) yn gallu hawlio cydnabyddiaeth deg a rhesymol am y rhan honno o'r Nwyddau y mae wedi'u dosbarthu ac nad yw wedi cael ei dalu amdanynt, ac unrhyw gostau neu atebolrwyddau i drydydd partïon o ganlyniad i ymrwymiadau diwrthdro a wnaed wrth gyflawni'r Contract hwn i'r graddau y gall y Cyflenwr ddarparu tystiolaeth sydd er boddhad rhesymol y Cwsmer i ategu unrhyw symiau y mae'n eu hawlio;

(b) ar ôl cael ei hysbysu o dan Amod 36.1 yn parhau i gyflenwi'r Nwyddau nes y dyddiad terfynu oni fydd y Cwsmer yn gofyn fel arall a bydd yn mynd ati'n ddi-oed i gymryd pob cam rhesymol i liniaru ei gostau a'i golledion a thynnu'n ôl o unrhyw ymrwymiadau i drydydd partïon yn ymwneud â chyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn.

36.3. Ni fydd y Cwsmer, lle terfynir y Contract o dan Amod 36.1, yn atebol am dalu unrhyw swm sydd, o'i ychwanegu at y symiau a dalwyd neu sy'n ddyledus i'r Cyflenwr o dan y Contract hwn, yn fwy na'r cyfanswm a fyddai wedi bod yn daladwy i'r Cyflenwr os na fyddai'r Contract hwn wedi cael ei derfynu cyn i'r Cyfnod Contract gwreiddiol ddod i ben.

## 37. Y BROSES DATRYS ANGHYDFOD

37.1. Bydd y Partïon yn cyfeirio pob mater y ceir anghydfod yn ei gylch sy'n deillio o'r Contract hwn neu sydd mewn cysylltiad ag ef i'w ystyried a'i benderfynu gan gyfarwyddwyr neu uwch-reolwyr dynodedig pob Parti, a fydd yn ymdrechu'n rhesymol i ddatrys unrhyw gyfryw anghydfod o fewn cyfnod o bymtheg (15) Diwrnod Gwaith o'r dyddiad y bydd un Parti yn hysbysu'r llall yn ysgrifenedig lle nodir manylion yr anghydfod, ac os na wneir hynny, oni fydd y Partïon yn cytuno ar gyfnod arall o amser, ymdrinnir ag unrhyw gyfryw anghydfod fel y'i nodir yn Amod 37.2.

37.2. Os na ellir datrys yr anghydfod gan gynrychiolwyr y Partïon enwebedig o dan Amod 37.1 o fewn pymtheg (15) Diwrnod Gwaith neu'r cyfryw gyfnod arall y bydd y Partïon wedi cytuno arno, yna caiff yr anghydfod ei gyfeirio at gyfryngwr o dan oruchwyliaeth Effective Dispute Resolution, International Dispute Resolution Centre, 70 Fleet Street, London, EC4Y 1EU (**"CEDR"**). Bydd cyfryngu yn cychwyn lle bydd y naill Barti yn cyflwyno (**"Hysbysiad Cyfryngu"**) gan grynhoi'r materion y ceir anghydfod yn eu cylch a galw ar y Parti arall i gysylltu â CEDR hefyd er mwyn penodi cyfryngwr.

37.3. Un cyfryngwr a ddefnyddir yn unol â chytundeb argymhelledig CEDR, neu'n unol ag ef yn sylweddol, sydd mewn grym ar y pryd. Rhaid bod y cyfryngwr wedi'i achredu gan CEDR a bod y Partïon yn cytuno arno neu, os na cheir cytundeb o fewn 10 diwrnod gwaith i ddyddiad yr Hysbysiad Cyfryngu, fe'i penodir gan CEDR ar gais y Parti a gyflwynodd yr Hysbysiad Cyfryngu.

37.4. Mae'r Partïon yn cytuno i gydweithredu'n llawn ac yn brydlon ac yn ddidwyll â CEDR a/neu'r cyfryngwr wrth gyflawni eu rhwymedigaethau o dan yr Amod 37 hwn. Bydd y ddau Barti yn darparu'r holl gymorth sydd ei angen ar y cyfryngwr er mwyn iddo ystyried yr anghydfod gan gynnwys mynediad llawn at unrhyw ddogfennaeth neu ohebiaeth yn ymwneud â'r materion y ceir anghydfod yn eu cylch, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Bydd unrhyw negodi mewn cysylltiad â'r anghydfod yn digwydd yn gwbl gyfrinachol a heb leihau effaith hawliau'r Partïon mewn unrhyw achosion cyfreithiol yn y dyfodol.

37.5. Os bydd y Partïon, gyda chymorth y cyfryngwr, yn cytuno ar setliad, nodir y cyfryw setliad yn ysgrifenedig ac, unwaith y caiff ei lofnodi gan gynrychiolwyr awdurdodedig priodol y Partïon, bydd yn rhwymo'r naill Barti a'r llall.

37.6. Oni chytunir fel arall yn ystod y broses, bydd pob Parti yn gyfrifol am ei gostau cyfryngu ei hun.

37.7. Os na fydd y Partïon yn llwyddo i ddatrys y materion dan sylw ar ôl iddynt gymryd rhan ddidwyll yn y broses gyfryngu, cyfeirir pob cyfryw fater at y llysoedd yn unol ag Amod 50.

37.8. Os na fydd y broses gyfryngu yn esgor ar ddatrysiad i'r anghydfod o fewn dau fis calendr i benodi'r cyfryngwr, neu'r cyfryw gyfnod arall ag y gall y Partïon gytuno arno, caiff y naill Barti neu'r llall gymryd y cyfryw gamau sydd ar gael iddo o dan y Contract hwn neu'r gyfraith.

37.9. Nid ystyrir bod unrhyw beth yn y Contract hwn yn atal y naill Barti neu'r llall, nac yn cyfyngu ar y naill Barti neu'r llall, rhag ceisio gorchymyn interim neu waharddeb gan unrhyw lys ag awdurdodaeth gymwys, sy'n gwahardd y Parti arall rhag gwneud unrhyw beth na chymell y Parti arall i wneud unrhyw beth.

37.10. Ni ddaw priod rwymedigaethau pob Parti a gyflawnir o dan y Contract hwn i ben ac ni chânt eu hoedi am fod y broses datrys anghydfod hon ar waith.

## 38. IS-GONTRACTIO AC ASEINIO

38.1. Mae'r Contract hwn yn bersonol i'r Cyflenwr.

38.2. Ni fydd y Cyflenwr yn aseinio, yn disodli, nac fel arall yn gwaredu'r Contract hwn nac unrhyw ran ohono heb gydsyniad ysgrifenedig y Cwsmer sy'n gweithredu yn ôl ei ddisgresiwn llwyr ymlaen llaw.

38.3. Ni fydd y Cyflenwr yn is-gontractio'r gwaith o gyflawni unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y Contract hwn nac yn newid unrhyw Is-Gontractiwr heb gydsyniad ysgrifenedig y Cwsmer ymlaen llaw, ac ni chaiff y cyfryw gydsyniad ei gadw'n ôl na'i oedi'n afresymol. Bydd y Cyflenwr yn darparu'r cyfryw wybodaeth ag y gall y Cwsmer ofyn amdani'n rhesymol o ran unrhyw Is-Gontractiwr.

38.4. Er unrhyw is-gontractio a ganiateir drwy hyn, y Cyflenwr fydd yn parhau'n bennaf cyfrifol am weithredoedd a hepgoriadau ei Is-Gontractwyr fel petai'n eu cyflawni ei hun.

38.5. Bydd y Cyflenwr yn rhoi rhestr o'r holl Bersonél a ddefnyddir gan ei Is-Gontractwyr i'r Cwsmer, ynghyd ag unrhyw ddiwygiadau dilynol i'r rhestr, a bydd yn sicrhau bod holl ofynion eraill Amod 18 yn cael eu bodloni gan unrhyw Is-Gontractiwr. Ceidw'r Cwsmer yr hawl i wrthod penodi neu i ofyn am ddileu unrhyw aelod o Bersonél penodedig yr Is-Gontractwyr a ddefnyddir i gyflenwi'r Nwyddau.

38.6. Os bydd y Cyflenwr, yn unol â thelerau'r Contract hwn, yn ymrwymo i is-gontract mewn cysylltiad â'r Contract hwn, bydd y Cyflenwr yn sicrhau'r canlynol:

(a) bod Is-Gontractwyr ac unrhyw gyflenwyr wedi derbyn rhwymedigaethau sy'n cyfateb i'r rhai a nodir yn y Contract hwn a'u bod yn cyflawni'r cyfryw rwymedigaethau;

(b) bod teler yn cael ei gynnwys yn yr is-gontract sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyflenwr dalu'r holl symiau sy'n ddyledus i'r Is-Gontractiwr o fewn cyfnod penodol, nad yw'n hwy na 30 diwrnod, o'r dyddiad y daw anfoneb ddilys y cytunir arni i law fel y'i diffinnir gan delerau'r is-gontract (fel sy'n briodol).

38.7. Bydd hawl gan y Cwsmer i:

(a) aseinio, disodli neu fel arall waredu ei hawliau a'i rwymedigaethau o dan y Contract hwn neu unrhyw ran ohono i unrhyw Awdurdod Contractio; neu

(b) ddisodli'r Contract hwn i unrhyw gorff arall (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i unrhyw gorff yn y sector cyhoeddus) sy'n cyflawni'n sylweddol unrhyw swyddogaethau a gyflawnwyd gan y Cwsmer yn flaenorol.

38.8. Mae'r Contract hwn yn rhwymo'r Cwsmer a'i olynwyr a'i aseiniaid a'r Cyflenwr ac olynwyr ac aseiniaid a ganiateir y Cyflenwr.

**39. SWYDDOGAETHAU GWEINIDOGION CYMRU**

39.1. Mae'r Partïon yn cydnabod bod gan Weinidogion Cymru amrywiaeth o swyddogaethau a fydd yn parhau i gronni a chael eu diwygio a bod penderfyniadau mewn perthynas â phob cyfryw swyddogaeth yn gorfod cael eu cymryd yn sgil pob ystyriaeth berthnasol a chan eithrio pob ystyriaeth amherthnasol. Mae'r Partïon yn cytuno na fydd unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys neu ei awgrymu yn y Contract hwn, nac sy'n deillio ohono neu sydd mewn cysylltiad ag ef, yn lleihau effaith, yn rhwystro nac yn effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru nac unrhyw un ohonynt nac yn gorfodi Gweinidogion Cymru nac unrhyw un ohonynt i arfer neu beidio ag arfer unrhyw un o'u swyddogaethau mewn unrhyw ffordd benodol.

**40. HYSBYSIADAU**

40.1. Oni nodir fel arall yn benodol yn y Contract hwn, ni fydd unrhyw gyfathrebu rhwng y naill Barti neu'r llall yn ddilys o dan y Contract hwn oni fydd yn ysgrifenedig.

40.2. Mae'r Partïon yn cytuno yr ystyrir e-bost yn gyfrwng cyfathrebu boddhaol at ddibenion Amod 40.1.

40.3. Rhaid i unrhyw hysbysiad a roddir i Barti o dan y Contract hwn neu mewn cysylltiad ag ef fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo:

(a) gael ei ddosbarthu â llaw neu mewn amlen barod dosbarth cyntaf neu drwy wasanaeth cludo Diwrnod Gwaith nesaf arall; neu

(b) gael ei ddosbarthu drwy e-bost a'r hysbysiad wedi'i atodi i'r e-bost

40.4. Oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig gan y Partïon, at ddibenion Amod 40.3 bydd cyfeiriadau a chyfeiriadau e-bost y Partïon:

(a) ar gyfer y Cwsmer y cyfeiriad sy'n ymddangos ar y Llythyr Dyfarnu a chyfeiriad e-bost Rheolwr Contract y Cwsmer.

(b) ar gyfer y Cyflenwr y cyfeiriad sy'n ymddangos yn y Tendr a chyfeiriad e-bost Rheolwr Contract y Cyflenwr.

40.5. Tybir bod unrhyw hysbysiad wedi dod i law:

(a) os caiff ei ddosbarthu â llaw, ac y llofnodir derbynneb ddosbarthu yn y cyfeiriad cywir;

(b) os caiff ei anfon mewn amlen barod dosbarth cyntaf neu drwy wasanaeth cludo Diwrnod Gwaith nesaf arall, am 9am yr ail Ddiwrnod Gwaith ar ôl ei bostio;

(c) os caiff ei anfon drwy e-bost, tybir iddo gyrraedd y diwrnod y'i hanfonir os gwneir hynny cyn 4pm ar Ddiwrnod Gwaith ond fel arall ar y Diwrnod Gwaith nesaf, ar yr amod na cheir adroddiad gwall ac yr anfonir cadarnhad drwy bost dosbarth cyntaf neu wasanaeth cludo Diwrnod Gwaith nesaf arall yr un diwrnod.

40.6. Mae'r Partïon yn cytuno nad yw'r Amod 40 hwn yn gymwys i gyflwyno unrhyw achos neu ddogfennau eraill lle cymerir camau cyfreithiol.

## 41. ATEBOLRWYDD CYD AC UNIGOL

41.1. Os bydd y Cyflenwr yn fwy nag un person, bydd pob un ohonynt yn atebol ar y cyd ac yn unigol am rwymedigaethau ac atebolrwyddau'r Cyflenwr sy'n deillio o'r Contract hwn. Caiff y Cwsmer gymryd camau yn erbyn neu ryddhau neu gyfaddawdu atebolrwydd, neu roi unrhyw amser neu oddefgarwch arall i, unrhyw un sy'n ffurfio'r Cyflenwr heb effeithio ar atebolrwydd unrhyw un ohonynt.

## 42. TORADWYEDD

42.1. Os bydd unrhyw ddarpariaeth neu ddarpariaeth rannol yn y Contract hwn yn cael ei phennu'n annilys, yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy am unrhyw reswm gan unrhyw lys ag

awdurdodaeth gymwys, torrir y cyfryw ddarpariaeth a bydd gweddill y darpariaethau yn parhau mewn grym ac effaith lawn fel petai'r Contract hwn wedi cael ei gyflawni heb y ddarpariaeth annilys, anghyfreithlon neu anorfodadwy.

42.2. Os bydd teler a dorrir mor sylfaenol fel na ellir bodloni diben y Contract mwyach, bydd y Cwsmer a'r Cyflenwr yn cychwyn negodiadau didwyll ar unwaith er mwyn unioni'r cyfryw ddarpariaeth fel ei bod, o'i diwygio, yn ddilys, yn gyfreithlon ac yn orfodadwy ac, i'r graddau mwyaf posibl, yn cyflawni canlyniad masnachol bwriadedig y ddarpariaeth wreiddiol.

42.3. Os na fydd unrhyw gytundeb rhwng y Partïon o fewn 20 diwrnod gwaith i gychwyn negodi o dan Amod 42.2, caiff y naill Barti neu'r llall, drwy hysbysiad, derfynu'r Contract hwn ac ni fydd y naill Barti na'r llall yn atebol o gwbl yn hynny o beth (ond heb leihau effaith unrhyw ddarpariaethau eraill o dan y Contract hwn).

## 43. HAWLILDIAD

43.1. Ni fydd methiant y naill Barti neu'r llall i fynnu cyflawni unrhyw ddarpariaethau yn y Contract hwn yn llym, neu fethiant y naill Barti neu'r llall i arfer unrhyw hawl neu rwymedi y mae hawl ganddo i'w wneud o dan y Contract hwn neu'r gyfraith, yn gyfystyr â hawlildio hynny neu unrhyw hawl neu rwymedi arall ac ni fydd yn peri lleihau'r rhwymedigaethau a sefydlwyd gan y Contract hwn.

43.2. Ni fydd hawlildio unrhyw Ddiffyg yn gyfystyr â hawlildio unrhyw Ddiffyg dilynol.

43.3. Ni fydd hawlildio unrhyw ddarpariaeth yn y Contract hwn yn effeithiol oni nodir yn benodol mai hawlildiad ydyw ac y caiff hynny ei gyfleu i'r Parti arall yn ysgrifenedig yn unol â darpariaethau Amod 40.

## 44. RHWYMEDÏAU CRONNOL

44.1. Oni nodir fel arall yn benodol yn y Contract hwn, bydd pob rhwymedi sydd ar gael i'r naill Barti neu'r llall am dorri'r Contract hwn yn gronnol a gellir ei arfer ar y cyd neu ar wahân, ac ni thybir bod arfer un rhwymedi yn golygu y caiff ei ddewis ar draul rhwymedïau eraill.

## 45. DIWYGIADAU I'R CONTRACT HWN

45.1. Ni chaiff y Contract hwn ei amrywio na'i ddiwygio oni fydd hynny wedi'i gytuno'n ysgrifenedig gan un o gynrychiolwyr awdurdodedig priodol y Cwsmer ac un o gynrychiolwyr awdurdodedig priodol y Cyflenwr.

## 46. HAWLIAU TRYDYDD PARTI

46.1. Oni nodir fel arall yn benodol yn y Contract hwn, ni fydd gan berson nad yw'n Barti i'r Contract hwn unrhyw hawliau oddi tano nac mewn cysylltiad ag ef ac ni chaiff orfodi unrhyw ran ohono.

## 47. DIM ASIANTAETH NA PHARTNERIAETH

47.1. Nid yw'r Cyflenwr ac ni fydd y Cyflenwr o dan unrhyw amgylchiadau yn datgan ei fod yn was nac yn asiant i'r Cwsmer. Ni fydd y Cyflenwr yn datgan ei fod wedi'i awdurdodi i lunio unrhyw gontract ar ran y Cwsmer nac mewn unrhyw ffordd yn rhwymo'r Cwsmer i gyflawni, amrywio neu ryddhau unrhyw rwymedigaeth i drydydd parti. Ni fydd Personél y Cyflenwr yn datgan eu bod yn weision nac yn asiantau i'r Cwsmer, ac ni fydd y Cyflenwr yn datgan hynny ychwaith.

47.2. Ni fydd unrhyw beth yn y Contract hwn yn cael ei ystyried yn bartneriaeth rhwng y Partïon.

**48. CYTUNDEB CYFAN**

48.1. Y Cytundeb hwn yw’r cytundeb cyflawn rhwng y Partïon ac mae’n disodli ac yn diddymu pob cytundeb, addewid, sicrwydd, gwarantiad, cynrychioliad a dealltwriaeth flaenorol rhyngddynt, boed hynny'n ysgrifenedig neu ar lafar mewn perthynas â'i bwnc testun.

48.2. Mae pob Parti yn cydnabod wrth ymrwymo i’r Cytundeb hwn nad yw'n dibynnu ar unrhyw ddatganiad, cynrychioliad, sicrwydd na gwarantiad (p’un a yw wedi’i wneud yn esgeulus neu’n ddifwriad) nas nodir yn y Cytundeb hwn, ac na fydd ganddo unrhyw rwymedïau mewn perthynas â hynny.

**49. COSTAU**

49.1. Oni nodir yn benodol yn y Contract hwn, bydd pob Parti yn talu ei gostau ei hun yr eir iddynt mewn cysylltiad â negodi, paratoi a chyflawni'r Contract hwn ac unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt ynddo.

**50. Y GYFRAITH AC AWDURDODAETH**

50.1. Mae'r Contract hwn yn gontract sydd wedi'i wneud yng Nghymru ac fe'i llywodraethir ac fe'i hystyrir yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr, fel sy'n gymwys yng Nghymru. Yn ddarostyngedig i Amod 47 mae'r Partïon yn ddiddymadwy yn ymddarostwng i awdurdodaeth gyfyngol Llysoedd Cymru a Lloegr sy'n eistedd yn ardal y Cwsmer neu yng Nghaerdydd.